Bwrdd Rhaglen - Cynllun Ymateb
Programme Board – Response Plan

Cyfarfod / Meeting

14:30, Dydd Llun 19 Hydref 2026 / 14:30, Monday 19 October 2026

Microsoft Teams

AGENDA

<table>
<tr><th>Rhif / No</th><th>Amser /Time</th><th>Eitem / Item</th></tr>
<tr><td>1</td><td>14:00 – 14:10</td><td>Croeso a Chyflwyniadau / Welcome and Introductions
• Datgan Buddiant / Declaration of Interests
• Cylch Gorchwyl / Terms of Reference</td></tr>
<tr><td>2</td><td>14:10-14:25</td><td>Diweddariadau / Updates –
• Sally Holland, Cadeirydd y Bwrdd / Chair of the Board
• Dafydd Gibbard, Cyngor Gwynedd</td></tr>
<tr><td>3</td><td>14:25 – 14:35</td><td>Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu 15/07/2026
Minutes and Action Points 15/07/2026</td></tr>
<tr><td>4</td><td>14:35 – 15:30</td><td>Cyflwyniad: Mesur Effaith / Presentation: Measuring Effect</td></tr>
<tr><td>4</td><td>10:35 - 11:40</td><td>Rhaglen Waith / Work Programme;
1. Adroddiad Cynnydd / Overview Report
2. Rhaglen Waith / Work Programme

<table>
<tr><th></th><th>Thema / Theme</th><th>Arweinydd Thema
Theme Leader</th></tr>
<tr><td>Thema 1</td><td>Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
Voice of the Child and Supporting Victims</td><td>Gwern ap Rhisiart</td></tr>
<tr><td>Thema 2</td><td>Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
Managing Allegations and Concerns about Adults who work with Children</td><td>Sharron Williams / Dylan Owen</td></tr>
<tr><td>Thema 3</td><td>Hyfforddiant a Pholisïau
Training and Policies</td><td>Ian Jones</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

Thema 4	Llywodraethu ***Governance***	Alison Halliday
Thema 5	Arferion Cyfyngol ***Restrictive Practices***	Llion Williams
Thema 6	Cynllunio ac Ymateb i Argyfwng ***Emergency Planning and Response***	Catrin Love

Pecynnau Gwybodaeth (atodiadau eitem 4) ***/ Information Packs (Item 4 Attachments)***

- Cydweithio rhwng Ysgolion, yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant / ***Collaboration between Schools, the Education Department and Children's Services***
- Goruchwyliaeth Broffesiynol Personau Dynodedig Mewn Ysgolion / ***Professional Supervision of Designated Persons in Schools***

Dogfennau atodol er gwybodaeth yn unig / ***Additional documents for interest only***

- Cofrestr Risg ***/ Risk Register***
- Adroddiad Pwyllgorau Craffu: (Eitem 5: Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Iau, 8fed Hydref, 2026, 10.30 y.b.) ***/ Scrutiny Committees Report (Item 5: Agenda for Education and Economy Scrutiny Committee on Thursday, 8th October, 2026, 10.30 am)***
- Strategaeth Llais y Plentyn gyda atodiadau (Eitem 6: Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 13eg Hydref, 2026, 1.00 y.h.) ***/ Voice of the Child Stratergy with Apppendicies (Item 6: Agenda for The Cabinet on Tuesday, 13th October, 2026, 1.00 pm)***
- ***Diweddariad Inffograff – Beth sydd wedi newid? / Updated Infograph – What has changed?***
- ***Diweddariad Inffograff – Beth fydd yn cael ei wneud yn y 6 mis nesaf? / Updated Infograph – What will be done in the next 6 months?***
- Datganiad Drafft – nodi blwyddyn ers cyhoeddi Adroddiad CTED / ***Draft Statement – marking one year since the publication of the OBBJ report***

CYLCH GORCHWYL – CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Pwrpas:

1. Gwirio a herio cynnydd priodol ac amserol ar y 7 ffrwd waith sydd yn y Cynllun Ymateb: Cyfiawnder trwy ein dewrder.
2. Gwirio a herio fod cyflawniad y materion unigol o fewn pob ffrwd waith yn drwyadl a phriodol.
3. Adolygu cynnwys y Cynllun Ymateb: Cyfiawnder trwy ein dewrder wrth i'r sefyllfa ddatblygu, a sicrhau fod y Cynllun yn cael ei addasu i ymateb yn briodol ac amserol ac yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant.
4. Adrodd yn ôl i Gabinet y Cyngor yn rheolaidd ar gynnydd priodol ac amserol y ffrydiau gwaith.
5. Gall y Bwrdd Rhaglen goladu sylwadau a phwyntiau dysgu sydd â goblygiadau y tu hwnt i Wynedd, a bydd yn adrodd ar y rhain i'r awdurdodau cenedlaethol priodol - rhai ohonynt yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd hwn.

Trefniadau'r Cyfarfod:

- Lle bynnag y bo modd, trefnwch fod dirprwy addas o ran statws yn gallu adrodd ar eich rhan, os na allwch fod yn bresennol.
- Bydd cofnodion a dogfennau'r Bwrdd yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor yn dilyn y cyfarfod, oni bai am eitemau eithriedig.
- Gofynnir i bob cyfranogwr ddatgan unrhyw fuddiant personol ar ddechrau pob cyfarfod os y bydd angen gwneud hynny
- Bydd aelodau allanol yn cyfarfod yn chwarterol am hanner awr cyn i'r cyfarfod ddechrau gyda'r Cadeirydd i drafod boddhad gyda chynnydd ac unrhyw gwestiynau y dymunwn eu codi. Bydd ysgrifennydd o Wynedd yn mynychu'r rhag-gyfarfod hwn a bydd nodiadau'n cael eu cymryd, er tryloywder. Bydd yr un trefniadau a'r uchod hefyd yn berthnasol ar gyfer Aelodau Cabinet.
- Bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cynnwys un neu fwy o eitemau sylweddol fesul cyfarfod, megis edrych ar un ffrwd waith yn fanwl neu ystyried adroddiad (ee CPR).

Aelodaeth:

a. Cadeirydd:

- Sally Holland, Cadeirydd

b. **Aelodau Etholedig:**

- Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor) – CYNG/COUN
- Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) – CYNG/COUN
- Dewi Jones (Cynghorydd) – CYNG/COUN
- Llio Elenid Owen (Cynghorydd) – CYNG/COUN

c. Swyddogion:

- Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) - Tim Arweinyddiaeth
- Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) - Tim Arweinyddiaeth

- Gwern Ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg) - Adran Addysg
- Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) - Tim Arweinyddiaeth
- Sharron Williams Carter (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd) - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Sion Gwynfryn Williams (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Sarah Marion Jones (Arweinydd Tim Cyfathrebu) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Iwan Gwilym Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro)
- Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Corfforaethol)
- Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant) – Adran Addysg
- Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion) - Adran Addysg

Ch. Cynrychiolwyr y Sector Addysg:

- Elin Walker Jones (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars) – CYNG/COUN
- Margaret Davies (Pennaeth Ysgol Friars)
- Dr Geraint Jones (Cynrychiolydd - Grŵp Cadeiryddion Penaethiaid Ysgolion)

d. Cynrychiolwyr Allanol (*Sylwedyddion Gweithredol*):

- Dyfrig Ellis, Estyn
- Sian Roberts, Arolygiaeth Gofal Cymru
- Kevin Barker, Arolygaeth Gofal Cymru
- Lou Bushell-Bauers, Arolygaeth Gofal Cymru
- Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru
- Nicola Edwards, Llywodraeth Cymru
- Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru
- Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant
- Lina Liu, Comisiynydd Plant
- Geraint Davies, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Cyfrifoldeb Aelodau Cabinet fydd gosod cyfeiriad gwleidyddol strategol y meysydd gwaith dan eu cyfrifoldeb, tra hefyd yn craffu ar waith swyddogion a'u cefnogi.

Bydd cynrychiolwyr allanol yn gweithredu fel sylwedyddion gweithredol yn cynnig cyngor a her annibynnol i waith a gweithrediad y Bwrdd.

Noder - Gall aelodaeth y Bwrdd ganiatáu hyblygrwydd i eraill i ymuno ar gyfer eitemau penodol (yn ddibynnol ar yr agenda).

Trefniadau Adrodd:

Bydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb : Cyfiawnder trwy ein dewrder yn adrodd i'r Cabinet unwaith pob chwarter ar ddatblygiad y ffrydiau gwaith.

Gall y Bwrdd Rhaglen goladu arsylwadau a phwyntiau dysgu sydd â goblygiadau y tu hwnt i Wynedd, a bydd yn adrodd am y rhain i'r awdurdodau cenedlaethol priodol.

Amserlen:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn parhau i gyfarfod nes bod yr holl gamau gweithredu yn y cynllun ymateb wedi'u cwblhau a bod aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod tystiolaeth mewn perthynas â'r mesurau effaith a restrir yn dangos effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn.

Bydd y Cadeirydd yn adolygu'r amserlenni tebygol yn Hydref 2025, pan fydd cymhlethdod a graddfa'r gwaith sy'n ofynnol yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i asesu, ac yn adrodd ar hyn i'r Bwrdd. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Bwrdd Rhaglen - Cynllun Ymateb

Cyfarfod

10:00, Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2026

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cadeirydd:
Sally Holland (SH)

Allanol:
Tom Davies - Comisiynydd Plant (TD), Dyfrig Ellis - Estyn (DE), Nicola Edwards - Llywodraeth Cymru (NE), Sian Roberts - Arolygiaeth Gofal Cymru (SR), Paul Jones - Arolygiaeth Gofal Cymru (PJ), Geraint Davies (GD) - Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Cynghorwyr:

Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys (NWJ), y Cynghorydd Menna Trenholme (MT), y Cynghorydd Dewi Jones (DJ), y Cynghorydd Llio Elenid Owen (LlEO)

Cynrychiolwyr y Sector Uwchradd:

Margaret Davies (MD)

Swyddogion:

Dafydd Gibbard (DG); Gwern Ap Rhisiart (GApRh), Dylan Owen (DO), Sharron Williams Carter (ShC), Nia Grisdale (NG), Eleri Jones (EJ), Llion Williams (LlW), Alison Halliday (AH), Sion Gwynfryn Williams (SGW), Jennifer Rao (JR)

Lois Owens (LO), Sioned Jones (SJ), Bethan Mair Evans (Cyfieithydd)

Ar gyfer Eitem 5 yn unig:

Y Cynghorydd Cai Larsen (CL), Bethan Adams (BA)

COFNODION A CHAMAU GWEITHREDU

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
1	**Croeso a Chyflwyniadau**		
	Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyflwynwyd pawb a nodwyd eu rôl. **Datgan Diddordeb:** Nid oedd Aelodau'r Bwrdd yn datgan unrhyw ddiddordeb o ran eitemau'r rhaglen.		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	Cylch Gorchwyl: Nid oedd unrhyw sylwadau pellach ar y Cylch Gorchwyl.		
2.	**Diweddariadau**		
	Sally Holland (Cadeirydd y Bwrdd) • Croesawodd SH fomentwm parhaus gwaith y Bwrdd a chanmolodd ansawdd y papurau a gyflwynwyd, yn enwedig y nodiadau briffio ychwanegol i gefnogi'r eitemau ar yr agenda. • Nodwyd bod y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru, gyda'r holl welliannau wedi'u hamlygu'n glir er hwylustod cyfeirio. Roedd y rhain yn cynnwys ychwanegu risgiau yn ymwneud â Brynffynnon ac effaith y rhaglen deledu ddiweddar. • Rhoddwyd diweddariad ar y Matrics Trosglwyddo. **Mae DO yn arwain ar y matrics, a gwahoddwyd aelodau i rannu unrhyw sylwadau neu adborth ag o wrth i'r ddogfen barhau i ddatblygu**. Rhoddir diweddariad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol. • Croesawyd yr atodiadau newydd a ddatblygwyd i gefnogi gwaith Llais y Plentyn fel tystiolaeth o aeddfedrwydd cynyddol y maes gwaith hwn. Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i ddangos a thystio i effaith gweithredoedd y Bwrdd. • Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Adroddiad Chwarterol y Cadeirydd wedi'i gyflwyno i'r Cabinet a'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod. Gan nad oedd SH yn gallu bod yng nghyfarfod y Cabinet, byddai'n mynd i gyfarfod y Cabinet ym mis Medi i gyflwyno'r adroddiad yn fanylach ac ymateb i unrhyw gwestiynau. • Cydnabuwyd bod Gweinidogion newydd bellach yn y swydd yn dilyn etholiad y Senedd. Disgwylir i gyfarfod nesaf Bwrdd Sicrwydd y Gweinidogion gael ei gynnal yn ddiweddarach y mis hwn. • Pwysleisiodd SH bwysigrwydd cydnabod y pryderon parhaus ynglŷn â Brynffynnon a'r ffordd y deliwyd gyda'r materion, ynghyd â'r effaith ar hyder plant, rhieni, trigolion a'r gymuned ehangach. **Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd)** • Ategodd DG sylwadau SH ar y swmp o bapurau a gyflwynwyd, gan nodi bod pecyn y cyfarfod yn fwy na 200 o dudalennau. Er na fyddai pob eitem yn cael ei thrafod yn fanwl, roedd hyn yn adlewyrchu'r swmp sylweddol o waith oedd yn mynd rhagddo ar draws y rhaglen. • Nododd DG y lefel uchel barhaus o ddiddordeb gan y cyfryngau a rhoddodd ddiweddariad ar ychydig o faterion cysylltiedig:	**Pob Aelod o'r Bwrdd**	**Cyn gynted â phosibl**

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	o Byddai'r ddrama sydd ar y gweill gan S4C yn cael ei darlledu ymhen tua deunaw mis. Cafodd y Bwrdd wybod bod y cwmni cynhyrchu wedi cysylltu â'r Cyngor amryw o wythnosau yn ôl a mynegwyd pryderon sylweddol am y rhaglen oedd ar y gweill a'r effaith bosibl ar ddioddefwyr, yr ysgol a'r gymuned ehangach. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r defnydd arfaethedig o enw Ysgol Friars ar gyfer lleoliad y ddrama. Roedd y Cyngor wedi mynnu bod dioddefwyr yn cael gwybod ymlaen llaw trwy'r grŵp cyswllt i ddioddefwyr ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r gefnogaeth a allai fod ei hangen arnynt. Mae trafodaethau gyda'r cwmni cynhyrchu yn parhau, er nad yw'n glir pa mor lwyddiannus fydd y rhain gan fod disgwyl i'r gwaith ffilmio ddechrau cyn bo hir. Mae'r mater hefyd wedi cael ei drafod gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. o Ategodd DG sylwadau SH ynglŷn â rhaglen *Y Byd ar Bedwar* yn ddiweddar ar Brynffynnon. Cadarnhawyd bod adolygiadau pellach wedi'u comisiynu ac y bydd unrhyw wersi ychwanegol sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn cael eu croesgyfeirio â gwaith y Bwrdd. o Cafodd yr aelodau hefyd ddiweddariad ar ymholiadau gan y cyfryngau yn ddiweddar ynglŷn ag iawndal i ddioddefwyr. O safbwynt yr awgrymiadau nad oedd iawndal yn cael ei dalu, eglurwyd bod hynny'n anghywir gan fod hawliadau'n cael eu rheoli trwy yswirwyr y Cyngor ac yn symud ymlaen yn briodol ac mor brydlon â phosibl. Cydnabuwyd, fodd bynnag, ei bod hi'n anochel bod proses negodi gyfreithiol yn gallu ymestyn amserlenni. • Nodwyd pryderon blaenorol am ddyfodol Grŵp Sicrwydd y Gweinidogion, yn dilyn etholiad y Senedd. Hysbyswyd yr Aelodau bod Arweinydd Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn annog i'r Grŵp barhau, a bod y cyfarfod cyntaf gyda'r Gweinidogion newydd wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol. Bydd adborth o'r cyfarfod hwnnw yn cael ei fwydo i'r Bwrdd nesaf. • Atgoffwyd yr aelodau o'r pedwar papur briffio a rannwyd gyda'r agenda. Roedd y rhain wedi'u paratoi mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn flaenorol gan aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys materion yn ymwneud â ffurflenni cyfeirio a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o feithrin perthynas amhriodol *('grooming')*. Bwriad y papurau oedd		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	rhoi gwybodaeth gefndirol gynhwysfawr, ac anogwyd yr aelodau i godi unrhyw gwestiynau pellach yn ystod y cyfarfod neu wedi hynny. • Cyflwynodd DG, yn fyr, y matrics asesu trosglwyddo arfaethedig. Nodwyd bod angen trafod ymhellach sut y dylid cwblhau'r matrics, ac a fyddai angen trefnu gweithdy penodol gydag aelodau'r Bwrdd. • Cydnabu DG fod mesur effaith yn gymhleth ac y bydd tystiolaeth ystyrlon o newid yn cymryd amser i ddod i'r amlwg. Cynigiwyd y dylai rhaglen o grwpiau ffocws adeiladu ar y gwaith ymgysylltu yn ddiweddar â phlant a phobl ifanc, gan ddarparu tystiolaeth ansoddol i ategu'r mesurau presennol a helpu i ddangos newid mewn diwylliant ac ymddygiad ar draws ystod ehangach o randdeiliaid diogelu. **Cytunwyd y byddai papur pwrpasol ar fesur effaith yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd nesaf i dynnu'r dull gweithredu arfaethedig at ei gilydd.** • Cefnogodd NWJ sylwadau DG, gan nodi, er bod polisïau, systemau a hyfforddiant diweddar yn bwysig ac yn dangos cynnydd, bod yn rhaid i'r Bwrdd hefyd allu dangos tystiolaeth bod ymddygiad a diwylliant sefydliadol yn wirioneddol wedi newid. Pwysleisiwyd y dylid mesur llwyddiant nid yn unig trwy gwblhau hyfforddiant, ond trwy gael mwy o hyder bod y newidiadau a ddymunir yn cael eu rhoi ar waith.	**DG**	**19.10.26**
3.	**Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu – 27042026**		
	• Adolygwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Roedd y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. • Roedd y cam gweithredu yn ymwneud â sianeli Teams a gweithio aml-asiantaeth yn parhau; fodd bynnag, rhoddwyd diweddariad ar y gwaith hwn drwy bapur briffio MASH a rannwyd gyda'r agenda.		
4.	**Rhaglen Waith**		
	Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr ***Swyddog yn Adrodd: Gwern ap Rhisiart*** • Mae'r atodiadau ategol (ynghyd â Strategaeth Llais y Plentyn) bellach wedi'u cwblhau a'u cylchredeg gydag Aelodau'r Bwrdd ymlaen llaw. Cyfeiriwyd at gyfarfod pwysig o'r Fforwm Ieuenctid a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol (16 Gorffennaf). Y bwriad yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc i "brofi straen" heriau a sefyllfaoedd posibl, gan sicrhau bod y strategaeth yn gweithio iddynt fel pobl ifanc ac, yn hollbwysig, a fydd y strategaeth yn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed ac yn gwneud gwir wahaniaeth.		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	• Yna bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ar ffurf dogfen derfynol. Cydnabuwyd bod y dull o fesur effaith y strategaeth yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ymhellach ac nad oedd wedi'i ddiffinio'n llawn eto. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i lunio atodiad terfynol yn amlinellu fframwaith mesur effaith clir. • Nodwyd bod Bromcom bellach wedi'i gyflwyno ar draws y sector cynradd, a bod gan bob ysgol yng Ngwynedd system recordio electronig ar waith. Er byddai'n well i bob ysgol ddefnyddio system gyson, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt yn y sector uwchradd ynghylch a ddylai Bromcom fod yn system safonol ar draws pob lleoliad. Bydd hyn yn parhau i gael ei ystyried dros y tymhorau nesaf. • Mae'r modiwl e-ddysgu Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) bellach ar gael trwy borth e-ddysgu'r sefydliad. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddarparu hyfforddiant pellach ar fod yn ystyriol o drawma i Aelodau'r Cabinet, y Tîm Rheoli ac eraill. • Mae'r ymweliadau sicrhau ansawdd yn parhau i ddigwydd. Mae pob ysgol wedi cael ymweliad o fewn y cylch blynyddol. Un agwedd ar yr ymweliadau hyn yw sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar gael yn glir i ddisgyblion, gan gynnwys posteri a chyfeirio at ffynonellau cymorth o fewn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. • Trafodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal momentwm y Fforwm Plant a Phobl Ifanc, a thynnwyd sylw hefyd at yr angen i ddatblygu a chefnogi aelodau newydd y Fforwm. Mae perygl y gallai momentwm ac effeithiolrwydd y Fforwm presennol gael eu colli os nad yw cynllunio olyniaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. • Trafodwyd yr heriau o gynnal momentwm y Fforwm Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig o ystyried yr ystod gynyddol o faterion sy'n mynnu sylw'r Fforwm. Er ei bod yn bwysig bod blaenoriaethau'r Fforwm yn cyd-fynd â'r strategaeth ehangach, rhaid grymuso pobl ifanc i osod eu cyfeiriad eu hunain. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd datblygu a chefnogi aelodau newydd y Fforwm, gan gydnabod y risg y gellid colli effeithiolrwydd a momentwm presennol y Fforwm heb gynllunio olyniaeth yn effeithiol. Sylwadau pellach: • Pwysleisiodd DJ nad "siop siarad" yn unig yw'r Fforwm a bod angen tystiolaeth glir bod cyfraniadau pobl ifanc wedi arwain at welliannau. Tynnodd sylw hefyd at yr heriau parhaus o ran recriwtio Gweithiwr		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	Ymgysylltu gan holi pa drefniadau wrth gefn ('Cynllun B') sydd gan GapRh pe bai recriwtio yn parhau i fod yn aflwyddiannus. *Esboniodd GapRh fod y swydd newydd dan sylw wedi'i chreu i wella ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, gan gynnwys y rheiny sydd â phrofiad o fod mewn gofal neu sydd ag anableddau. Er bod recriwtio wedi bod yn heriol, gyda'r rôl wedi'i hysbysebu dair gwaith, mae'r ymgyrch ddiweddaraf wedi denu mwy o ddiddordeb gyda gobaith y bydd y swydd wag yn cael ei llenwi. Canmolodd GapRh hefyd gyfraniad sylweddol aelodau'r Fforwm a thynnodd sylw at y gefnogaeth effeithiol gan Dan a Nia i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac yn cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau ledled Gwynedd.* • Cododd DJ gwestiwn ar wahân hefyd ynglŷn â chefnogaeth i ddioddefwyr, gan geisio sicrwydd bod dioddefwyr yn fodlon â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol. Gan adeiladu ar y pwynt hwn, holodd NWJ pa gamau pellach y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch mewn gwasanaethau cymorth therapiwtig i ddioddefwyr a nodwyd yn yr adroddiad cynnydd. *Cadarnhaodd ShC fod cyswllt rheolaidd â dioddefwyr yn parhau trwy drefniadau MAPPA, gydag ymarferiad ymgysylltu ychwanegol wedi'i gynnal yn ddiweddar mewn perthynas â'r rhaglen drama deledu oedd ar y gweill. Mae'r cynnig cymorth a ddatblygwyd gyda RASASC yn parhau i fod ar gael ac mae'r cyswllt uniongyrchol hwnnw'n cael ei gynnal â'r dioddefwyr hynny sy'n dymuno ymgysylltu â gwasanaethau. Y brif her, fodd bynnag, yw adnabod cymorth therapiwtig ac unigryw priodol, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda SARC, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Prawf i fapio'r gwasanaethau sydd ar gael ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth. Croesawodd ShC wybodaeth gan Aelodau'r Bwrdd am unrhyw wasanaethau cymorth ychwanegol a allai fod ar gael.* • Gan gyfeirio at Strategaeth Llais y Plentyn, awgrymodd DE y dylid ailadrodd arolygon disgyblion yn rheolaidd i asesu a yw plant a phobl		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	ifanc yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus wrth godi pryderon. *Ymatebodd GapRh, er bod y Fforwm wedi bod yn rhan o ddatblygu holiaduron bod arolygon blaenorol yn awgrymu y gellid bod wedi treulio mwy o amser yn cefnogi pobl ifanc i lunio cwestiynau mewn ffordd gytbwys ac mewn ffordd nad oedd yn eu harwain. Cytunwyd y dylid casglu adborth gan blant a phobl ifanc yn fwy rheolaidd gan fynegi cefnogaeth i weithio gyda'r Fforwm i ddatblygu proses werthuso flynyddol. Gallai hyn fod yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o ddisgyblion yn hytrach na phob disgybl bob blwyddyn. Er mwyn gweithredu hyn yn llwyddiannus, nodwyd y byddai angen cefnogaeth ysgolion a chyrff llywodraethu, er gallai rhai ysgolion fod yn wyliadwrus ynglŷn â chymryd rhan mewn arolygon nad oedd yn uniongyrchol o dan eu rheolaeth.* **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** ***Swyddog yn Adrodd: Dylan Owen*** • Nododd DO fod yr adroddiad cynnydd yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith sylweddol a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*. • Tynnwyd sylw at welliannau yn ffurflen fewnol WCCIS a bod trafodaethau aml-asiantaeth cryfach, a fyddai'n cefnogi'r gwaith o adnabod ac ymyrryd yn gynharach. Mae'r dull hwn yn mynd y tu hwnt i ofynion statudol ac hefyd y disgwyliadau a nodir yn y canllawiau hyfforddiant Rhan 5 a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn gan Gofal Cymdeithasol Cymru. • Ar y cyfan, mae mwyafrif y camau gweithredu yn mynd rhagddynt yn dda ac yn dal ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. • Cyflwynodd DO hefyd y papur briffio ar y Ffurflen Gyfeirio, gan amlinellu'r gwaith i wella hygyrchedd i weithwyr proffesiynol, gweithredu'r ffurflen gyfeirio genedlaethol, a newidiadau mewn systemau mewnol i gofnodi ac ystyried gwybodaeth hanesyddol yn well. Sylwadau pellach:		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	• Croesawodd SH y gwelliannau yr adroddwyd arnynt mewn cydweithrediad rhwng ysgolion a'r Gwasanaethau Plant a gofynnodd am sylwadau pellach ar sut mae'r gwelliannau hyn yn cael eu gweld yn ymarferol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes tystiolaeth, data neu enghreifftiau sy'n dangos gwaith partneriaeth cryfach ar lawr gwlad. Adleisiodd MT y pwynt hwn, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio effeithiol a gofyn am asesiad o ba mor dda y mae'r cydweithio rhwng y gwasanaethau ar hyn o bryd. Croesawodd DJ hefyd y trafodaethau cadarnhaol sy'n digwydd rhwng ysgolion, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant a gofynnodd a allai adroddiad yn y dyfodol ddarparu rhagor o fanylion ar ganlyniadau ac effaith y gwaith hwn. Yn benodol, gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes enghreifftiau o newidiadau ymarferol yn yr Adran o ganlyniad i'r cydweithio gwell, ynghyd â thystiolaeth o unrhyw welliannau sy'n deillio o hynny, megis ansawdd y cyfeirio a rhannu gwybodaeth. ***Cytunodd DO i gydweithio â GapRh a ShC i baratoi adroddiad yn y dyfodol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant, gan gynnwys enghreifftiau o well cydweithio a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ymarfer a chanlyniadau.*** • Gofynnodd MT am ragor o wybodaeth am yr heriau sy'n deillio o ran amharodrwydd rhai asiantaethau i ddefnyddio Beam Notes i gofnodi cyfarfodydd, a pha effaith yr oedd hyn yn ei chael ar weithio aml-asiantaethol a thrafodaethau ar y cyd. *Esboniodd DO fod Beam Notes yn cael ei ddefnyddio o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd i gofnodi pwyntiau trafod allweddol o gyfarfodydd, gan leihau baich gweinyddol a gwella effeithlonrwydd cadw cofnodion. Fodd bynnag, mae heriau wedi codi mewn lleoliadau aml-asiantaethol, gyda rhai sefydliadau partner, yn enwedig y Bwrdd Iechyd, yn mynegi pryderon am y defnydd o Beam a'i oblygiadau o ran GDPR. Er bod offer deallusrwydd artiffisial (AI) fel Copilot wedi'u derbyn yn gyffredinol, nid yw Beam wedi derbyn yr un	**DO / ShC / GapRh**	**19.10.26**

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	lefel o sicrwydd gan bob partner eto. O ganlyniad, mae rhai asiantaethau partner, gan gynnwys yr Heddlu, wedi gofyn am roi saib ar y recordiad ar Beam mewn rhannau o gyfarfodydd lle maent yn rhannu gwybodaeth neu'n cyfrannu at drafodaethau. Mae hyn wedi creu rhywfaint o rwystredigaeth, er bod Beam Notes yn parhau i gael ei ddefnyddio lle bo hynny'n briodol. ***Tynnodd SH sylw at waith parhaus ym Mhrifysgol Caerdydd ar foeseg a diogelwch deallusrwydd artiffisial a chynigiodd hwyluso cyflwyniad rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd ac arbenigwyr deallusrwydd artiffisial i helpu i archwilio rhai o'r materion a godwyd gan DO.*** • Mynegodd MT bryder bod y dull o benderfynu ar drothwy a nodir yn y canllawiau newydd a hyrwyddir drwy hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru, yn wahanol i'r dull cydweithredol a awgrymir yn yr adroddiad *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*. Codwyd pryder y gallai hyn fod yn gyfle a gollwyd i gadw elfen bwysig o graffu proffesiynol, a cheisiwyd eglurhad ynghylch a ddylid uwchgyfeirio'r mater. *Eglurodd DO fod yr hyfforddiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gosod cyfrifoldeb am benderfyniadau trothwy gyda Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO). Mae'r dull hwn yn rhoi llawer mwy o gyfrifoldeb ar y Swyddog Diogelu Dynodedig, gan symud i ffwrdd o'r disgwyliad blaenorol y dylid trafod pob penderfyniad ar y cyd.* ***Yn dilyn cyhoeddi hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru ar brosesau Rhan 5, NE i godi'r mater ar y dull penderfynu ar drothwyon ar gyfer trefniadau LADO gyda TS.*** ***Cytunodd DO hefyd i godi'r mater yng nghyfarfod Grŵp Sicrwydd y Gweinidogion a oedd i'w gynnal yr wythnos ganlynol.*** **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** ***Swyddog yn Adrodd: Eleri Jones*** • Yn absenoldeb IJ, rhoddodd EJ ddiweddariad ar y rhaglen waith. Mae	**SH** **NE** **DO**	**Cyn gynted â phosibl** **Cyn gynted â phosibl** **Cyn gynted â phosibl**

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	fideo i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a gynhyrchwyd gan yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol wedi'i ddatblygu ac mae bellach yn cael ei gyflwyno ar draws y Cyngor. Hyd yn hyn, mae 67 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant trwy'r fideo. Mae'r cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl oherwydd absenoldeb yr Hyrwyddwr Diogelu o'r gwaith. • Aeth EJ drwy'r dudalen bwrpasol ar ddiogelu ar y fewnrwyd, sy'n rhoi canllawiau ar sut i wneud cyfeiriad diogelu, ochr yn ochr ag enghreifftiau ymarferol a sefyllfaoedd diogelu i gefnogi dealltwriaeth staff. • Cymeradwywyd y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig gan y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2025. Mae gwaith pellach ar y gweill i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisi newydd. • Mae nodyn briffio ar wahân hefyd wedi'i ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o feithrin perthynas amhriodol â phlant a chamfanteisio ar blant. • Mae'r Polisi Canu'r Gloch wedi'i fabwysiadu, ac mae modiwl e-ddysgu ategol bron â chael ei gwblhau. Mae ymwybyddiaeth wedi cael ei hyrwyddo trwy'r Rhwydwaith Rheolwyr, gyda negeseuon yn atgyfnerthu pwysigrwydd y polisi a'r hyfforddiant cysylltiedig. Bydd hyfforddiant arbenigol, gan gynnwys hyfforddiant Protect, yn parhau i gael ei ddarparu lle bo angen. Sylwadau pellach: • Gofynnodd SH am eglurhad ynglŷn â'r amserlen ar gyfer Rhif 34 - Goruchwyliaeth Broffesiynol ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig (DSPs) mewn Ysgolion gan ei fod yn dal angen ei gadarnhau yn y tabl. *Nododd ShC fod trafodaethau wedi digwydd gyda GapRh ynghylch opsiynau ar gyfer darparu goruchwyliaeth broffesiynol ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig (DSP), gan gynnwys cyflwyno trwy rôl swyddog mewnol neu drwy ddarparwr allanol. Mae ansicrwydd yn parhau o gwmpas lefel yr angen, yn enwedig mewn ysgolion llai lle gall achosion diogelu fod yn anaml. Dywedodd GapRh fod gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu ag ysgolion a rhanddeiliaid i ddeall y galw a'r gofynion yn well. O ystyried yr heriau wrth recriwtio gweithwyr proffesiynol cyfrwng Cymraeg, gall comisiynu goruchwyliaeth fod yn opsiwn mwy cynaliadwy na recriwtio'n uniongyrchol.*		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	Nododd SH y gellid edrych hefyd ar fodelau amgen ar gyfer ysgolion llai, fel goruchwyliaeth grŵp, gyda'r fantais o gefnogi cymheiriaid. ***Bydd ShC a GapRh yn rhoi diweddariad pellach ar argymhelliad rhif 34 (darparu goruchwyliaeth broffesiynol ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig (DSPs)) yn y cyfarfod nesaf.*** • Tynnodd DE sylw at bwysigrwydd hyfforddiant ar feithrin perthynas amhriodol a sut mae ei effaith yn cael ei werthuso. Er iddo gydnabod yr heriau wrth fesur canlyniadau, gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i asesu newidiadau mewn hyder, gwybodaeth a gallu staff i adnabod a herio ymddygiadau amhriodol ar ôl hyfforddiant. Atgoffodd y Bwrdd hefyd bod cryfhau a gwerthuso hyfforddiant ar feithrin perthynas amhriodol yn argymhelliad oedd yn deillio o arolygiad diweddar gan Estyn/Arolygiaeth Gofal Cymru. *Roedd DO yn cydnabod yr heriau o fesur effaith yr hyfforddiant ar feithrin perthynas amhriodol. Dywedodd fod gwaith archwilio pellach wedi'i gomisiynu ar gyfer yr Hydref i asesu newidiadau mewn hyder, dealltwriaeth ac arferion y gweithlu, gan gynnwys a yw hyfforddiant Diogelu wedi cyfrannu at leihau risg a chynyddu chwilfrydedd proffesiynol. Ychwanegodd ShC fod modiwl e-ddysgu NSPCC yn gyfle i gryfhau trefniadau gwerthuso trwy gynnwys elfen fyfyriol, gan alluogi cyfranogwyr i adnabod canlyniadau dysgu allweddol ac unrhyw newidiadau arfaethedig yn eu harferion.* • Gofynnodd DE hefyd a oedd Cyngor Gwynedd wedi cael cais i gyfrannu at y *National Grooming Inquiry*. *Cadarnhaodd DO y daeth cais am wybodaeth tua phythefnos ynghynt. Nododd fod yr ymchwiliad yn fanwl ac yn gymhleth, ac yn gofyn am gryn waith gan swyddogion i gasglu a choladu'r wybodaeth angenrheidiol. Mae ymateb Gwynedd bellach wedi'i gyflwyno, er gwaethaf yr heriau dan sylw. Ychwanegodd fod y dyddiad cau wedi cael ei ymestyn yn genedlaethol ers hynny, gan adlewyrchu'r anawsterau a gafodd awdurdodau ledled y wlad wrth gwblhau'r ffurflen o fewn yr amserlenni gwreiddiol.*	**ShC / GapRh**	**19.10.26**

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	Thema 4 - Llywodraethu ***Swyddog yn Adrodd: Alison Halliday*** • Tynnodd AH sylw at effaith gadarnhaol y Swyddog Cefnogi Llywodraethu sydd newydd ei benodi - mae ei rôl wedi cryfhau capasiti ac wedi darparu cymorth ychwanegol i gyrff llywodraethu. • Mae'r holiadur llywodraethu bellach yn cael ei gyflwyno a bydd yn rhoi asesiad gwaelodlin o arferion llywodraethu ar draws ysgolion, gan helpu i adnabod cryfderau, meysydd ar gyfer datblygu ac anghenion o ran cefnogaeth yn y dyfodol. • Cydnabu AH fod mesur effaith yn parhau i fod yn heriol yn y cyfnod cynnar hwn. Fodd bynnag, bydd yr holiadur yn darparu tystiolaeth werthfawr o gynnydd ac yn llywio gwelliannau yn y dyfodol. Bydd diweddariad ar y canfyddiadau yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref. • Mae camau dilynol wedi'u cymryd gyda Chadeiryddion nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, a bydd yr holl faterion sy'n weddill yn cael eu datrys cyn y Nadolig. • Yn ogystal, cafwyd nifer dda yn y sesiwn hyfforddi gyntaf i glercod, gan gryfhau ymhellach y trefniadau llywodraethu ar draws ysgolion. Sylwadau pellach: • Tynnodd DJ sylw at rôl bwysig clercod wrth gefnogi llywodraethu effeithiol a sicrhau bod cyrff llywodraethu yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Nododd fod clercod yn cael eu diystyru weithiau, er mai nhw sy'n aml yn y sefyllfa orau i adnabod materion sy'n codi'n gyson o ran llywodraethu ar draws ysgolion. Cwestiynodd DJ a oes angen cynyddu nifer y clercod proffesiynol, gan nodi heriau recriwtio blaenorol, a gofynnodd am gynlluniau ar gyfer y cynllun peilot, ac a oes digon o alw i gyfiawnhau dwy neu dair swydd clerc proffesiynol pwrpasol yn hytrach nag un yn unig. *Ymatebodd AH gan ddweud fod y swydd Clerc Proffesiynol yn cael ei chyflwyno fel cynllun peilot, gyda chyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer yfory. Yn amodol ar benodiad llwyddiannus a gwerthusiad cadarnhaol o'r cynllunio peilot, efallai y bydd cyfleoedd i ehangu'r model a recriwtio mwy o Glercod Proffesiynol yn y dyfodol. Atgoffodd AH y Bwrdd hefyd fod clercod llywodraethu ysgolion yn cael eu talu*		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	am eu rôl a chadarnhaodd gynlluniau i sefydlu Fforwm Clercod i hyrwyddo rhwydweithio, rhannu arferion da a darparu cefnogaeth barhaus. Mae'r dyddiadau wrthi'n cael eu trefnu, gyda sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u cynllunio ar gyfer mis Medi yng Nghaernarfon a Dolgellau. **Thema 5 - Arferion Cyfyngol** ***Swyddog yn Adrodd:*** **Llion Williams** • Darparodd LlW y diweddariad cynnydd cyntaf ar ôl cael adborth gan yr adolygiad allanol. Nodwyd bod canfyddiadau'r adolygiad wedi'u nodi yn adroddiad cynnydd thema 5. • Roedd y neges gyffredinol o'r adolygiad allanol yn gadarnhaol - yn cadarnhau bod polisïau'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y plentyn yn eu dull gweithredu, ac yn tynnu sylw hefyd at feysydd lle mae angen mwy o welliannau ymarferol. • Cynghorodd LlW fod gwaith ar y gweill i weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad, gan gynnwys cryfhau'r gwaith o gasglu, dadansoddi a defnyddio data i roi tystiolaeth well o effaith, cefnogi gwaith sicrhau ansawdd a llywio datblygiad gwasanaethau. • Mae dadansoddi a thrafod gwybodaeth am berfformiad nawr yn eitem sefydlog mewn cyfarfodydd misol, gan roi mwy o drosolwg ar dueddiadau, canlyniadau a meysydd sydd angen sylw pellach. • Mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i gomisiynu ar gyfer staff Grŵp C i gefnogi'r gwaith o weithredu'r gweithdrefnau diwygiedig, gyda ffocws penodol ar ddeall eu heffaith a gwerthuso'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i arferion a chanlyniadau. Nid oedd unrhyw sylwadau pellach. **Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng** ***Swyddog yn Adrodd: Eleri Jones*** • Cynghorodd EJ fod y Cynllun Argyfwng Strategol bellach wedi'i ddatblygu a'i gwblhau yn dilyn ymgynghoriad ac adborth gan benaethiaid. • Mae cyfres o weithdai wedi'u cynllunio ar gyfer tymor yr Hydref i gryfhau ymhellach ymwybyddiaeth, cyfathrebu a threfniadau gweithredu ar draws ysgolion a gwasanaethau.		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	Nid oedd unrhyw sylwadau pellach. **Thema 7 – Ysgol Friars** ***Swyddog yn Adrodd: Margaret Davies*** • Nododd SH gyfarfod diweddar gyda'r Cynghorydd Elin Walker a MD, a roddodd gyfle i drafod sefyllfa'r ysgol. • Diolchodd MD i SH am ei chefnogaeth a myfyriodd ar yr hyn a fu'n flwyddyn arbennig o hir a heriol i Ysgol Friars. Mynegodd MD hefyd werthfawrogiad o'r gefnogaeth a ddarparwyd gan dîm Estyn yn ystod yr arolygiad. • Wrth edrych ymlaen, nodwyd bod cynnal sefydlogrwydd ar draws yr ysgol yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig yn sgil y newid sylweddol a'r trosiant mewn staff a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. • Nodwyd bod Ysgol Friars yn mynd i gyfnod yr Haf gyda mwy o eglurder ynghylch ei blaenoriaethau, ei pherfformiad a'i thaith wella, ond gan gydnabod hefyd effaith barhaus yr heriau sy'n wynebu carfan 2023. Sylwadau pellach: • Gofynnodd NWJ pa gamau gweithredu sydd ar y gweill dros y chwe mis nesaf i gryfhau'r cyfathrebu a'r ymgysylltu â rhieni, gan nodi bod hyn wedi'i nodi fel maes ar gyfer datblygu. *Cydnabu MD fod hyder rhieni a chymuned yn yr ysgol wedi cael ei effeithio'n sylweddol a bod ailadeiladu ymddiriedaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus. Mae cynnydd cyson wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf drwy ystod o weithgareddau i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach, gan gynnwys cymryd rhan mewn fforymau Gwynedd gyfan, sesiynau gwybodaeth i rieni a digwyddiadau penodol i gefnogi disgyblion a theuluoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau pwrpasol gyda disgyblion Blwyddyn 10 a'u rhieni.* • Cyfeiriodd DJ at drafodaeth fanwl gyda'r tîm arweinyddiaeth a diolchodd iddynt am fod yn agored. Nododd DJ fod yr adroddiad cynnydd yn parhau i fod yn fanwl ac yn adlewyrchu'r gwaith parhaus		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	gan MD a'r tîm.		
5.	***Adrodd yn ôl: Ymchwiliad Craffu ar Ddiogelu mewn Ysgolion***		
	• Croesawyd CL a BA gan SH i'r cyfarfod ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Craffu a rhoi trosolwg o'i ganfyddiadau a'i gasgliadau allweddol. • Diolchodd CL i'r Bwrdd am y cyfle i gyflwyno'r adroddiad a nododd mai'r bwriad oedd cefnogi trafodaeth a myfyrio. • Eglurwyd bod yr adolygiad wedi'i gomisiynu i ddarparu ymateb ehangach i'r pryderon a godwyd, gan ganolbwyntio nid ar ailymweld â digwyddiadau penodol, ond ar adnabod beth arall y gellid ei wneud i gryfhau trefniadau ar draws ysgolion. Ystyriodd yr adolygiad farn llywodraethwyr, staff a phobl ifanc ar draws 11 ysgol. • Mae'r adroddiad wedi'i drefnu o amgylch naw thema strategol, gyda'r bwriad o ategu'r gwaith presennol a rhoi pwyslais ychwanegol ar feysydd penodol. • Nododd CL nad oedd y Pwyllgor Craffu wedi gwneud argymhellion ffurfiol ond yn hytrach wedi dod i nifer o gasgliadau gyda'r nod o gryfhau trefniadau diogelu. Roedd trafodaethau buddiol wedi digwydd gyda'r Adran Addysg, a oedd wedi croesawu'r canfyddiadau ac wedi dangos parodrwydd i fwrw ymlaen â nhw. • Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw dystiolaeth o ddiwylliant sy'n gwrthsefyll newid. Dylid ystyried yr adroddiad fel cyfraniad at raglen wella ehangach y Cyngor, gan helpu'r Bwrdd i ymateb i'r canfyddiadau ac adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud trwy welliannau ymarferol a chynaliadwy. • Nododd CL, o safbwynt y Pwyllgor Craffu, nad cyhoeddi'r adroddiad oedd diwedd y broses. Gofynnwyd am ddiweddariad ymhen chwe mis i adolygu'r cynnydd yn erbyn y canfyddiadau, deall unrhyw rwystrau a ddarganfuwyd ac ystyried a yw gwelliannau yn cael eu gwireddu yn ymarferol. Trafodaeth a sylwadau pellach: • Diolchodd NWJ i CL, cyn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu, am gyfrannu at y gwaith gan gydnabod ysbryd cadarnhaol y cydweithio trwy gydol proses yr adolygiad. Nododd NWJ y byddai'r ewyllys da a'r ymrwymiad cyffredinol a ddangoswyd yn fuddiol wrth gefnogi'r Cyngor yn ei gyfanrwydd i fwrw ymlaen â'r gwaith a chyflawni gwelliannau pellach.		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	• Diolchodd DJ hefyd i CL a BA am eu gwaith a nododd fod y Bwrdd wedi trafod yr adroddiad yn fanwl. Derbyniwyd yr holl gasgliadau, heb fod unrhyw bryderon sylweddol wedi'u nodi. Cydnabuwyd, er bod nifer o gamau eisoes wedi'u cwblhau neu ar y gweill, y bydd angen gwaith pellach ar rai meysydd i gael eu gweithredu'n llawn. Nododd DJ hefyd fod amryw o'r casgliadau yn cyd-fynd ag argymhellion adolygiadau eraill, gan gynnwys cryfhau trefniadau sy'n ymwneud â'r Polisi Pryderon Lefel Isel, a phwysleisiodd bwysigrwydd parhau i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ymgorffori gwelliannau ar draws gwasanaethau. • Croesawodd SH yr adroddiad a nododd werth y cyfarfod cynharach i gyflwyno gwaith Dr Ceryl Davies ar lais y plentyn. Tynnodd SH sylw hefyd at yr argymhelliad ynglŷn â'r angen am fwy o gysondeb yn y defnydd o systemau a cheisiodd eglurhad ar y cyfeiriad at Bromcom. *Esboniodd CL fod yr adolygiad wedi canfod bod y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r un system ddigidol, er bod rhai yn parhau i ddibynnu ar gofnodion papur. Gall hyn greu anawsterau pan fydd disgyblion yn symud rhwng ysgolion, o fewn a thu allan i'r sir, gan fod cofnodion yn aml angen eu sganio a'u trosglwyddo â llaw. Codwyd pryderon am y baich gweinyddol y mae hyn yn ei roi ar ysgolion a'r oedi a'r rhwystredigaeth a all godi wrth rannu gwybodaeth bwysig. Nodwyd bod hwn yn fater ehangach sy'n effeithio ar ysgolion ledled Cymru a'r DU, ac y byddai trefniadau mwy awtomataidd a symlach ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng ysgolion yn fuddiol.* *Mewn perthynas â Llais y Plentyn, nododd CL fod hon yn thema arbennig o bwysig yn yr adolygiad. Cydnabu CL rai sylwadau negyddol ynglŷn â maint y sampl; fodd bynnag, darparodd y grwpiau ffocws sylwadau gwerthfawr a chadarnhaol a helpodd i lywio'r canfyddiadau. Cydnabuwyd bod y sampl yn llai nag a fwriadwyd yn wreiddiol ac nad oedd yn cynnwys ystod oedran lawn y dysgwyr, gan adlewyrchu rhai o'r heriau a wynebwyd yn ystod comisiynu'r adolygiad. Serch hynny, tynnodd y canfyddiadau sylw at nifer o themâu pwysig, yn enwedig mewn perthynas â lles emosiynol a phrofiadau disgyblion o addysg ar ddiogelu.*		

	COFNODION	Gweithredu: GAN BWY	Gweithredu: ERBYN PRYD
	• Tynnodd SH sylw hefyd at yr argymhelliad sy'n ymwneud â rheoli pryderon lefel isel, gan nodi ei fod yn berthnasol ac yn amserol o ystyried y ffocws presennol ar drefniadau llywodraethu a diogelu. **Cytunwyd y dylid bwydo'r mater i drafodaethau parhaus gweinidogion ac y byddai unrhyw ddatblygiadau perthnasol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd maes o law.**	DG / DO / GapRh	Cyn gynted â phosibl

Cyfarfod nesaf: 19 Hydref, Microsoft Teams

Crynodeb: Pwyntiau Gweithredu - Cyfarfod BRhCY 15/07/2026

	Pwy	Gweithredu - Materion Cyffredinol	Cwblhawyd ☑	Sylwadau pellach
Diweddariadau				
1.	Pob Aelod o'r Bwrdd	***Aelodau'r Bwrdd i roi unrhyw sylwadau ac adborth ar y Matrics Trosglwyddo i DO wrth i'r ddogfen barhau i ddatblygu.***	☑	
2.	DG	***Papur pwrpasol ar fesur effaith i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.***	☑	***Wedi ei gynnwys fel eitem 4***
Diweddariad - Rhaglen Waith				
3.	DO / ShC / GapRh	Thema 2 - Rheoli Pryderon ***Paratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd ar y cynnydd a wnaed o ran cryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant, gan gynnwys enghreifftiau o gydweithio'n well a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar arferion a chanlyniadau.***	☑	***Papur Briffio: Addysg a Plant yn y pecyn dogfennau, er gwybodaeth***
4.	SH	Thema 2 - Rheoli Pryderon ***SH i hwyluso cyflwyniad rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd ac arbenigwyr deallusrwydd artiffisial (AI) o Brifysgol Caerdydd i edrych ar faterion yn ymwneud â'r rhwystrau gyda Beam Notes.***	☑	
5.	NE / TS	Thema 2 - Rheoli Pryderon ***Yn dilyn cyhoeddi hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru ar brosesau Rhan 5, NE i godi'r mater ar y dull penderfynu ar drothwyon ar gyfer trefniadau Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) gyda TS.***	☑	***TS i ddiweddaru ar lafar yn y cyfarfod***
6.	DO	Thema 2 - Rheoli Pryderon ***Bydd DO hefyd yn codi'r mater ar y dull penderfynu ar drothwyon ar gyfer trefniadau LADO yng*** *nghyfarfod nesaf Grŵp Sicrwydd y*	☑	

		Gweinidogion.		
7.	**GapRh / ShC**	**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** ***Rhoi diweddariad pellach ar Argymhelliad 34 (Goruchwyliaeth Broffesiynol ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig mewn Ysgolion).***	☑	***Papur Briffio: Goruchwyliaeth Broffesiynol ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig mewn Ysgolion yn y pecyn dogfennau, er gwybodaeth***
Adrodd yn ôl: Ymchwiliad Craffu ar Ddiogelu mewn Ysgolion				
8.	**DG / DO / GapRh**	***Sicrhau bod materion ac argymhellion yn ymwneud â Rheoli Pryderon ar Lefel Isel yn cael eu bwydo i drafodaethau parhaus gweinidogion a rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar unrhyw ddatblygiadau perthnasol.***	☑	

Mesur Effaith
Measuring Impact

Cyflwyniad i'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb 19.10.26
Response Plan Programme Board Presentation 19.10.26

Cefndir / *Background*

- Mae nifer sylweddol o argymhellion, tasgau a ffrydiau gwaith wedi'u cyflawni. Mae polisïau, gweithdrefnau, hyfforddiant a threfniadau newydd wedi'u rhoi ar waith.
- Ond y cwestiwn pwysicaf yw: **pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud?**
- **Bydd y cyflwyniad yn:**
  - *Crynhoi'r cynnydd a'r ffrydiau gwaith sydd wedi'u cwblhau.*
  - *Dangos sut y byddwn yn mesur effaith, gan symud y ffocws o gyflawni tasgau i werthuso canlyniadau.*
  - *Amlygu astudiaethau achos sy'n darparu enghreifftiau ymarferol o'r newidiadau sydd wedi digwydd.*
  - *Egluro'r comisiwn i gynnal grwpiau ffocws gyda staff, partneriaid a rhanddeiliaid.*

- *A significant number of recommendations, tasks and workstreams have been completed. New policies, procedures, training and arrangements have been implemented.*
- *But the most important question is: **what difference has this made?***
- **This presentation will:**
  - *Summarise the progress made and the workstreams completed.*
  - *Demonstrate how we intend to measure impact, shifting the focus from completing tasks to evaluating outcomes.*
  - *Highlight case studies that provide practical examples of the changes that have taken place.*
  - *Outline the comission to undertake focus groups with staff, partners and stakeholders.*

FFRYDIAU GWAITH – CYFANSWM YR HYN SYDD WEDI EI GYFLAWNI ***WORK STREAMS – WHAT HAS BEEN ACHIEVED IN TOTAL?***	Nifer Argymhellion *Number of Recommendations*	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol *Completed / permanently incorporated*	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn *On track to complete by the end of the year*	Nifer fydd heb eu cyflawni / tu hwnt i reolaeth y Cyngor *Unfulfilled / Beyond Council Control*
Argymhellion CTED: Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad *OBBJ Recommendations: Cyngor Gwynedd Council / All Organisations*	9	8	1	0
Argymhellion CTED: Rhanbarthol a Chenedlaethol *OBBJ Recommendations: Regional and National*	17	9	1	7
CYFANSWM ARGYMHELLION CTED *TOTAL OBBJ RECOMMENDATIONS*	26	17	2	7
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED *Workstreams Beyond OBBJ Recommendations*	29	26	2	1
CYFANSWM HOLL FFRYDAU GWAITH Y BWRDD YMATEB / *TOTAL RESPONSE BOARD WORKSTREAMS*	55	43	4	8

Thema 1: Llais y Plentyn

Theme 1: Voice of the Child



Beth rydym wedi ei wneud? (Tasgau) / *What have we done? (Actions)*

FFRYDIAU GWAITH THEMA 1 ***THEME 1 WORK STREAMS***	Nifer Argymhellion *Number of Recommendations*	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol *Completed / permanently incorporated*	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn *On track to complete by the end of the year*	Nifer fydd heb eu cyflawni / tu hwnt i reolaeth y Cyngor *Unfulfilled / Beyond Council Control*
Argymhellion CTED: Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad *OBBJ Recommendations: Cyngor Gwynedd Council / All Organisations*	6	6	-	-
Argymhellion CTED: Rhanbarthol a Chenedlaethol *OBBJ Recommendations: Regional and National*	1	-	-	1
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED *Workstreams Beyond OBBJ Recommendations*	2	2	-	-
CYFANSWM / *TOTAL*	9	8	-	1

Beth rydym wedi ei wneud? (Tasgau) / *What have we done? (Actions)*

CTED: Wedi Cyflawni / OBBJ: *Completed*

- ü Strategaeth Llais y Plentyn / *Voice of the Child Stratergy*
- ü Gweithiwr cymdeithasol yn siarad â phob plentyn sy'n rhan o gyfeiriad rhan 5* / *A social worker speaks with every child who is the subject of a Part 5 referral.**
- ü Pob ysgol â system rheoli data electroneg / *All schools have an electronic data management system in place.*
- ü Ymgynghori â disgyblion i gryfhau mynediad at gymorth annibynnol a chyfleoedd i godi pryderon / *Consulted with pupils to improve access to independent support and reporting mechanisms.*
- ü Cefnogi dioddefwyr / *Victim support*

Ffrydiau Gwaith Eraill / *Other Work Streams*

- ü Ymdrin â cheisiadau iawndal / *Handling compensation claims*
- ü Rhaglen waith trawma wybodus a hawliau plant mewn lle* / *Trauma-informed and children's rights work programme in place.**

Tu hwnt i Reolaeth y Cyngor / *Beyond Council Control*

- Datblygu'r cwricwlwm i alluogi disgyblion i adnabod ac adrodd am ymddygiad amhriodol yn ddiogel / *Develop the curriculum to enable pupils to recognise and safely report inappropriate behaviour.*

* Data Mesur Perfformiad mewn lle / *Data Performance measures in place*

Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? (Mesurau effaith)
How will we know we are making a difference? (Impact measures)

Mesur Effaith / Impact Measure	**Sut byddwn yn mesur effaith?** / *How will we measure impact?*	**Amserlen** / ***Timescale***
Mae gan blant a phobl ifanc lais a dylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. *Children and young people have a voice and influence over decisions that affect them.*	• **Holiadur Llais Plant a Phobl Ifanc drwy Ysgolion Gwynedd a chymharu canlyniadau dros amser (cylchdro blynyddol cynradd/uwchradd)** • **Adborth rheolaidd drwy gyfarfodydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd.** • **Holiadur SHRN Cenedlaethol** • *Children and Young People's Voice Survey across Gwynedd Schools, comparing results over time (Primary/secondary annual rotation)* • *Regular feedback through Gwynedd Youth Forum meetings.* • *National SHRN Survey*	**Yn flynyddol (Dechrau Tymor Hydref 2026)** *Annually (Starting Autumn Term 2026)*
Ymwybyddiaeth a hyder plant a phobl ifanc o'r drefn codi pryderon neu ofyn am gymorth *Children and young people's awareness of and confidence in the arrangements for raising concerns or asking for help.*	• **Holiadur Llais Plant a Phobl Ifanc drwy Ysgolion Gwynedd a chymharu canlyniadau dros amser (cylchdro cynradd a uwchradd)** • **Holiadur SHRN Cenedlaethol** • **Ymchwiliad Craffu a Grwpiau Ffocws (gwaith Dr Ceryl Davies)** • *Children and Young People's Voice Survey across Gwynedd Schools, comparing results over time (Primary/secondary rotation)* • *National SHRN Survey* • *Scrutiny Review and Focus Groups (work undertaken by Dr Ceryl Davies)*	**Yn flynyddol (Dechrau Tymor Hydref 2026)** *Annually (Starting Autumn Term 2026)*
Pwysleisiodd y bobl ifanc fod cael llais yn ymwneud â'u hawliau, bod eu barn yn bwysig, a bod gwrando ar eu profiadau a'u teimladau hefyd yn gallu bod yn fater sy'n ymwneud â'u diogelwch.

Tynnodd y bobl ifanc sylw hefyd at arferion cadarnhaol. Nodwyd bod rhai ysgolion yn dewis cynrychiolwyr ar sail yr hyn y gallent ei gyfrannu at y rôl a'r newidiadau yr hoffent eu gweld. Roedd ymdeimlad hefyd fod cynghorau ysgol yn aml yn gryfach mewn ysgolion cynradd, lle'r oedd plant yn fwy tebygol o weld gweithredu ac effaith yn dilyn cyfarfodydd, ynghyd â chysylltiadau gwell rhwng gwahanol gynghorau disgyblion.

Defnyddiwyd yr adborth hwn i fireinio'r fersiwn derfynol, gan gryfhau'r pwyslais ar ddylanwad gwirioneddol, trefniadau cynhwysol a theg, atebolrwydd am ymateb i farn plant a phobl ifanc, a'r angen i ddangos yn glir pa wahaniaeth y mae eu mewnbwn wedi ei wneud. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen am ganllawiau ymarferol cliriach i gynorthwyo ysgolion i weithredu cynghorau ysgol yn gyson ac yn effeithiol.

O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a fynegwyd gan bobl ifanc eu hunain, gan gynnwys yr angen am ddylanwad gwirioneddol ar benderfyniadau, adborth clir ar ganlyniadau eu cyfraniad, a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Y cam nesaf yw cyflwyno Strategaeth Llais y Plentyn gerbron y Cabinet tymor yma, er mwyn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol a chefnogi ei gweithrediad ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Mesur Effaith Y Strategaeth (gweler hefyd gyflwyniad eitem 4)

Er mwyn mesur effaith y Strategaeth Llais y Plentyn dros amser, bwriedir cynnal holiadur blynyddol gyda phlant a phobl ifanc ledled Gwynedd. Bydd yr holiadur yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: a yw oedolion yn gwrando ar eu barn, a ydynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ydynt yn gweld tystiolaeth o newid o ganlyniad i leisiau plant a phobl ifanc, ac a ydynt yn gwybod sut i leisio eu barn. Bydd y canlyniadau'n darparu mesur cyson o effaith y Strategaeth ac yn galluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach o flwyddyn i flwyddyn.

Bydd yr holiadur yn cael ei lansio i disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd yn ystod tymor yr hydref. Bydd y canlyniadau'n darparu darlun cychwynnol o brofiadau a safbwyntiau pobl ifanc, gan ein helpu i fonitro cynnydd dros amser a mesur effaith gwaith y Bwrdd Adfer i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed.

www.gwynedd.llyw.cymru/HoliadurPlantAPhoblIfanc

www.gwynedd.llyw.cymru/_ChildrenAndYoungPeopleSurvey

Bu i ni hysbysebu'r swydd Swyddog Ymgysylltu dair gwaith ac ymrwymo i broses recriwtio estynedig er mwyn sicrhau'r ymgeisydd addas.

	Roedd recriwtio i'r rôl yn heriol, gyda dau ymgyrch hysbysebu a dau gyfweliad yn methu arwain at benodiad. Yn ystod y drydedd ymgyrch, gwnaethom hefyd wneud defnydd o dîm Cyfathrebu'r Cyngor i hyrwyddo'r swydd drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu ystod ehangach o ymgeiswyr. Yn dilyn y drydedd rownd hysbysebu, bu modd penodi'n llwyddiannus ac mae'r swyddog newydd wedi cychwyn yn ei swydd ar 1 Medi. **Trawma Gwybodus a Phlentyn Gyfeillgar** Hyd yma, mae dros 300 o aelodau staff wedi cwblhau'r e-fodiwl Trawma-Wybodus ar y porth e-ddysgu, gan gyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion ac ymarfer trawma wybodus ar draws y sefydliad. Yn dilyn trafodaethau gyda Trauma Informed Schools (TIS), bwriedir cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Penaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol yn ystod dechrau 2027. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal y sesiynau yn ystod yr hydref, bu'n rhaid ail amserlennu oherwydd diffyg argaeledd hyfforddwyr. Yn ogystal, mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Phrifysgol Bangor i archwilio arferion da sy'n cefnogi datblygu diwylliant ac amgylchedd dosturiol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. **Hawliau plant** Mae angen parhau i gefnogi a galluogi pob adran i ymgorffori hawliau plant yn eu gwaith o ddydd i ddydd a chryfhau ymwybyddiaeth gorfforaethol o'r egwyddorion hyn ar draws y sefydliad. Mae e-fodiwl Hawliau Plant ar gael drwy Hwb Llywodraeth Cymru, a bwriedir hyrwyddo'r modiwl ymhellach dros yr hydref er mwyn cynyddu dealltwriaeth ymhlith staff. Er mwyn cryfhau capasiti a sicrhau bod momentwm y gwaith yn cael ei gynnal yn y tymor hwy, bwriedir penodi adnodd ychwanegol i gefnogi'r maes cydraddoldeb (Gwasanaethau Corfforaethol). Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r gallu i gydlynu, cefnogi a datblygu'r agenda Hawliau Plant ar draws y Cyngor, gan adeiladu ar y trefniadau sydd eisoes mewn lle a chefnogi ymgorffori hawliau plant yn fwy systematig ar draws gwasanaethau. **Cofnodi** Nid oes unrhyw ddiweddariad pellach i'w gyflwyno mewn perthynas â'r ffrwd waith hon. Mae'r gwaith o sicrhau bod gan bob ysgol fynediad at system briodol ar gyfer cofnodi gwybodaeth berthnasol wedi ei gwblhau, ac mae'r trefniadau bellach wedi eu sefydlu ar draws yr holl ysgolion. Mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio naill ai Bromcom neu systemau presennol megis MyConcern yn unol â'u trefniadau lleol. O ganlyniad, mae pob ysgol mewn sefyllfa i gofnodi pryderon, digwyddiadau a gwybodaeth berthnasol yn electronig. Gan fod y nod gwreiddiol wedi ei wireddu, mae'r ffrwd waith hon bellach wedi cyrraedd ei therfyn naturiol ac nid oes rhagor o waith datblygu sylweddol wedi'i gynllunio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y ffocws o hyn allan fydd monitro a sicrhau bod ysgolion yn gwneud defnydd priodol, cyson ac effeithiol o'r systemau sydd ar gael iddynt, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gofnodir i gefnogi penderfyniadau, adnabod patrymau a risgiau, a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd hyn

	yn helpu i sicrhau bod y trefniadau cofnodi yn cael effaith gadarnhaol ac ystyrlon mewn ymarfer, yn hytrach na bod yn broses weinyddol yn unig.
4. Heriau a wynebwyd:	Mae'r galw cynyddol am fewnbwn gan y Fforwm Plant a Phobl Ifanc ar draws ystod eang o wasanaethau yn parhau i fod yn her. Bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng ceisiadau am eu cyfraniad a'u hymrwymiadau addysgol a phersonol. Wrth i fwy o wasanaethau geisio cynnwys llais plant a phobl ifanc yn eu gwaith, bydd angen sicrhau bod blaenoriaethau'r bobl ifanc eu hunain yn parhau'n ganolog i raglen waith y Fforwm. Er bod Strategaeth Llais y Plentyn bellach wedi'i chwblhau, bydd sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn her allweddol yn y cyfnod nesaf. Bydd angen datblygu trefniadau cadarn ar gyfer mesur effaith y Strategaeth dros amser, gan gynnwys defnyddio holiadur blynyddol i werthuso i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed ac yn dylanwadu ar benderfyniadau. Er bod y Swyddog Ymgysylltu newydd bellach yn ei swydd, bydd adeiladu capasiti a sicrhau digon o adnoddau i ymateb i'r galw cynyddol am waith ymgysylltu yn parhau'n bwysig.
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	• Cyflwyno Strategaeth Llais y Plentyn a'r atodiadau cysylltiedig i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol. • Gweithredu'r Strategaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor a sicrhau dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau perthnasol. • Datblygu rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Fforwm Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau cyfranogiad cynaliadwy a chydbwysedd rhwng blaenoriaethau'r bobl ifanc a blaenoriaethau'r Cyngor. • Cynnal holiadur blynyddol gyda phlant a phobl ifanc i fesur effaith y Strategaeth a monitro i ba raddau y mae eu llais yn cael ei glywed ac yn dylanwadu ar benderfyniadau. • Parhau i gryfhau trefniadau corfforaethol ar gyfer llais y plentyn, gan sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar gynllunio gwasanaethau, penderfyniadau a threfniadau llywodraethu. • Parhau i fonitro a hyrwyddo arferion da drwy ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, gan gynnwys mynediad plant a phobl ifanc at wybodaeth, cyngor a chymorth.
6. Risgiau / Adnoddau:	• Diffyg tystiolaeth o effaith, os na fydd trefniadau cadarn ar waith i fesur a dangos sut mae llais plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar bolisïau, gwasanaethau a phenderfyniadau. • Gorbwysau ar y Fforwm Plant a Phobl Ifanc oherwydd y galw cynyddol am eu mewnbwn ar draws nifer o wasanaethau a phrosiectau, a all arwain at flinder cyfranogwyr neu leihau lefel yr ymgysylltu dros amser. • Blaenoriaethau oedolion yn drech na blaenoriaethau pobl ifanc, gan greu risg y bydd y Fforwm yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i ymateb i anghenion y Cyngor yn hytrach na chynrychioli'r materion sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc eu hunain.

	• Gweithredu anghyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gyda'r risg na fydd egwyddorion y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael eu hymgorffori'n gyson nac yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau lleol.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	Blaenoriaethau oedolion yn drech na blaenoriaethau pobl ifanc, gan greu risg y bydd y Fforwm yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i ymateb i anghenion y Cyngor yn hytrach na chynrychioli'r materion sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc eu hunain. Gweithredu anghyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gyda'r risg na fydd egwyddorion y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael eu hymgorffori'n gyson nac yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau lleol.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
7	3	**Llywodraeth Cymru** i weithredu newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol	LlC wedi nodi Medi 2026
1	4	Strategaeth Llais y plentyn	Wedi cwblhau
2	4	Systemau / mesurau / adrodd – llais y plentyn	Wedi eu rhoi mewn lle (gweler uchod)
4	4	System cofnodi newid mewn ymddygiad	Wedi cwblhau - monitro
5	4	Gweithiwr Cymdeithasol i siarad efo pob plentyn	Wedi cwblhau - monitro
6	4	Cyswllt tu allan i'r ysgol (adrodd pryder)	Wedi cwblhau - monitro
8	4	Cefnogaeth i ddioddefwyr	Parhaus
9	4	Hawliadau iawndal	Parhaus
10	4	Gwaith ar ddiwylliant corfforaethol: Trawma Wybodus a'r Ffordd Gywir (Hawliau Plant)	Rhaglen waith hir dymor

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau, monitro neu parhaol

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma



Mae **gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn** sy'n destun Cyfeiriad Diogelu (Adran 5)



Mae pob ysgol yn dangos **gwybodaeth am berson annibynnol** y gall disgyblion siarad efo os oes ganddynt bryderon diogelu.



Mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.



Mae'r Cyngor yn cyd-weithio â phartneriaid er mwyn cynnig **cefnogaeth barhaus i'r dioddefwyr.**



Mae'r Cyngor wedi datblygu **Strategaeth Llais y Plentyn.**



Mae rhaglen waith bellach mewn lle i **wreiddio hawliau plant** ar draws y Cyngor.



Penodwyd **swydd arbennig i helpu datblygu Fforwm Ieuenctid Gwynedd.**



Mae'r Cyngor yn **cyflogi gweithiwr ychwanegol** i wrando ar llais fwy o blant a phobl ifanc, fel plant mewn gofal a phlant anabl.

THEMA 2 - RHEOLI HONIADAU A PHRYDERON AM OEDOLION SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT

Swyddog Adrodd: Dylan Owen / Sharron Williams Carter

1. Nod Thema:	• Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym. • Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Argymhellion CTED** Fel y nodwyd yn adroddiad cynnydd mis Gorffennaf, mae mwyafrif y tasgau sy'n deillio o argymhellion CTED bellach wedi'u cwblhau ac wedi'u hymgorffori yn nhrefniadau gweithredol yr Adran, gan gynnwys: • Mae ffurflenni WCCIS wedi'u diwygio er mwyn sicrhau, wrth dderbyn cyfeiriad, fod gwybodaeth ehangach, hanesyddol a chysylltiedig yn cael ei gwirio a'i hystyried. • Mae cydweithio aml asiantaeth wedi'i gryfhau, gan gynnwys sefydlu pwynt cyswllt unigol (SPOC) penodol ar gyfer pob asiantaeth. • Nid oes unrhyw benderfyniad diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr yn unig. • Mae'r ffurflen gyfeirio a'r dulliau o wneud cyfeiriad bellach wedi'u cyflwyno'n glir ar wefan gorfforaethol y Cyngor ac ar y fewnrwyd. • Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer yr Adran Plant gyfan ac mae bellach ar waith. • Mae bwrdd sicrwydd ansawdd wedi sefydlu ac wedi creu rhaglen awdit blynyddol, mi fydd aelodau'r bwrdd yn craffu ar waith y rhaglen awdit ac yn creu ac adolygu cynlluniau gweithredu. • Mae cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer y Tîm Derbyn ac bellach mae rheolwr Sicrwydd Ansawdd / DOS wedi eu penodi. Er bod y prif gamau gweithredu bellach wedi'u cwblhau, bydd y trefniadau hyn yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd drwy drefniadau Sicrwydd Ansawdd yr Adran. Bydd hyn yn sicrhau bod y newidiadau wedi'u gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson, ac y gellir adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd sydd angen sylw pellach. **Cryfhau'r cydweithio rhwng Addysg a'r Gwasanaethau Plant** ***(Gweler y Papur Briffio sy'n egluro'r bwriad mewn manylder)*** Cryfhawyd cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant, gyda llwybrau cyfathrebu cliriach a pherthnasoedd gwaith cryfach rhwng swyddogion allweddol. Bellach, mae Addysg yn cyfrannu'n fwy uniongyrchol at brosesau diogelu, gan gynnwys Trafodaethau Strategaeth Rhan 5, gan sicrhau bod gwybodaeth ysgolion yn cael ei hystyried yn gynharach wrth asesu risg a gwneud penderfyniadau. Gwelwyd mwy o ffocws ar ymyrraeth gynnar, gydag ysgolion yn fwy hyderus i geisio cyngor a chodi pryderon yn gynt, gan helpu plant a theuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Cryfhawyd y trefniadau cydweithio strategol hefyd, gyda chynrychiolaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant yng nghyfarfodydd rheoli ei gilydd, ynghyd â gwaith i gryfhau presenoldeb y Gwasanaethau Plant mewn fforymau penaethiaid.

Mae'r ddau wasanaeth yn cydweithio i weithredu Strategaeth y Drws Cywir, gyda'r nod o leihau rhwystrau rhwng gwasanaethau a sicrhau ymateb mwy cydlynol i anghenion plant a theuluoedd.

Datblygwyd capasiti ychwanegol ar y cyd i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys adnoddau ar gyfer y Tîm Derbyn Cyfeiriadau, cyfranogiad plant a phobl ifanc, goruchwyliaeth i Bersonau Dynodedig Diogelu a hyfforddiant ar gamfeithrin. Mae hyn yn rhoi sylfaen gryfach a mwy cynaliadwy i'r cydweithio.

Hyd yma, mae'r dystiolaeth weithredol yn awgrymu effaith gadarnhaol, gyda gwell ansawdd wrth rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau, arferion proffesiynol cryfach ac ymatebion mwy amserol a chydlynol i blant a'u teuluoedd.

Gweithdrefnau Rhan 5
Mae gweithdrefnau Rhan 5 newydd wedi'u cyflwyno'n genedlaethol, ynghyd â hyfforddiant e-fodiwl i gefnogi'r trefniadau. Fel nodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd cyn yr haf, wrth adolygu'r newidiadau, rydym wedi adnabod rhai gwahaniaethau rhwng y gweithdrefnau a'r hyn sydd wedi'i nodi yn CTED, ac wedi codi'r rhain gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio eglurder a sicrhau dealltwriaeth gyson.

Yn fewnol, mae'r Tîm Diogelu Plant, y Tîm Diogelu a Lles Addysg ac Adnoddau Dynol wedi cyfarfod i ystyried goblygiadau ymarferol y gweithdrefnau newydd newidiadau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith o fewn y Cyngor. Rhoddwyd sylw penodol i bwynt 4 o'r meini prawf, sef risg trosglwyddadwy, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson o sut y dylid adnabod, asesu a rheoli'r risg hon ar draws gwasanaethau.

Mae'r trafodaethau wedi amlygu rhai heriau o ran systemau gwybodaeth presennol a'r gallu i rannu neu gysylltu gwybodaeth yn effeithiol. Mae gwaith yn parhau i ystyried opsiynau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys peilota iTrent. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth Penaethiaid Ysgolion o'r gweithdrefnau rhan 5 newydd.

Rydym hefyd yn disgwyl arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi pryderon lefel isel, a bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o hynny fel rhan o'r gwaith hwn.

Archwiliad Rhan 5
Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi comisiynu Val Owen i gynnal archwiliad annibynnol o brosesau Adran 5, rhwng mis Hydref a dechrau mis Rhagfyr:

- Bydd yr archwiliad yn edrych ar 18 achos ar draws y rhanbarth, gan gynnwys achosion sydd wedi cyrraedd a heb gyrraedd y trothwy ar gyfer strategaeth.
- Bydd yn adolygu ansawdd a chysondeb y broses, gan gynnwys penderfyniadau, cyfarfodydd strategaeth, ymgysylltu, rhannu gwybodaeth, amserlenni a swyddogaeth y LADO.
- Bydd canfyddiadau thematig yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Darparu i nodi arfer da a meysydd i'w gwella.

4. Heriau a wynebwyd:	• Heriwyd ein defnydd o Beam gan yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd, gyda'r ddau sefydliad yn datgan na fyddent yn ymwneud â chyfarfodydd os y bydd Beam ar waith ynddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad ar hwn ers y cyfnod diwethaf.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Noder fod y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a'r systemau gweithredu Rhan 5 wedi eu lliwio'n llwyd i ddangos eu cwblhau yn y tabl ar y ddalen nesaf, ond bydd angen gwirio fod y materion hyn yn parhau'n weithredol ac effeithiol ymhen amser. Bwriedir ail-ymweld i ystyried hynny ymhen 6 mis (14 Ionawr 2027) gyda'r tîm rheoli Adran Plant i wirio a darparu sicrwydd pellach o'r effeithiau parhaol.
6. Risgiau / Adnoddau:	• Er bod gwaith yn mynd rhagddo ar gynllunio gweithlu a chreu swyddi hyfforddai, cydnabyddir heriau recriwtio allai lyffetheirio rhai datblygiadau cadarnhaol.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
18	3	Sicrhau bod y ffurflen gyfeirio Adran 5 yn hawdd ei chanfod ac yn hawdd ei defnyddio.	Cenedlaetthol / Rhanbarthol
14	3	**Llywodraeth Cymru** i ddatblygu Polisi Pryderon Lefel Isel	Aros am weithredu gan LIC
11	3	**Llywodraeth Cymru** i nodi fod angen clywed Llais y Plentyn yn dilyn cyfeiriad Adran 5	Aros am gopi gan LIC
12	3	**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** i graffu trefniadau delio efo honiadau ALL	BDRh
13	4	Cydweithio efo ysgolion ar unrhyw faterion diogelu sy'n codi yn dilyn arolygon ESTYN	Parhaus
15	4	Penderfyniadau diogelu (Adran 5) yn cael eu gwneud yn aml-asiantaethol a dim gan y LADO yn unig	Trefniadau yn cael eu gweithredu a'u mireinio
16	4	Ystyried gwybodaeth diogelu hanesyddol ar gofnod plentyn	Wedi cwblhau
17	4	Trefniadau gweithredu Rhan 5 a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd	Fframwaith wedi gwblhau
19	4	Diwylliant tryloyw ac agored o drîn ac atgyfeiriadau	Parhaus
20	4	**Llywodraeth Cymru** i Adolygu gweithredfnau Adran 5	Wedi cyhoeddi
21	4	**Llywodraeth Cymru** i gyhoeddi'r Strategaeth 10 Mlynedd atal camdrin plant yn rhywiol	Wedi cyhoeddi
22	4	Sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion	Adolygu Parhaus
23	4	Gwella perthynas rhwng y timau plant a'r ysgolion	Parhaus
24	4	Cryfhau cydweithio / Cyfathrebu rhwng yr Adrannau Plant ac Addysg	Parhaus
25	4	Ansawdd cofnodi Trafodaethau Strategaeth (Adran 5)	Medi-2026

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma



Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.



Mae **cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).



Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.



Mae'r **Cyngor, yr Heddlu a gwasanaethau eraill bellach yn gweithio'n well gyda'i gilydd** i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.



Mae **"Magic Notes" yn cael ei beilota** er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Adran 5).



Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.



Rydym wedi **penodi Rheolwr Sicrwydd Ansawdd** i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn yn yr Adran Plant.



Mae rheolwyr o'r **Adrannau Plant ac Addysg yn cyfarfod yn rheolaidd** i gryfhau cydweithio.

THEMA 3 - HYFFORDDIANT A PHOLISÏAU ***Swyddog Adrodd: Ian Jones***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma".
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Y Fewnrwyd Diogelu** • Yn ystod y cyfnod fe lansiwyd y Fewnrwyd Diogelu newydd, gan ddarparu gwybodaeth, arweiniad ac adnoddau diogelu mewn un lle i staff. • Mae posteri gyda chod QR yn cael eu raeadru ar draws adeiladau, depos a swyddfeydd y Cyngor i gyfeirio staff yn uniongyrchol at y dudalen a'r wybodaeth berthnasol. Bydd y rhain ar gael i staff rheng flaen yn ogystal â staff swyddfa. • Bydd y fewnrwyd a'r adnoddau sydd ar gael hefyd yn cael eu hyrwyddo fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd. **Hyfforddiant Fideo** • Parha'r hyfforddiant fideo i gael ei gyflwyno i weithwyr nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at systemau digidol y Cyngor. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda nifer yn nodi bod y dull hwn yn fwy hwylus a bod y negeseuon yn haws eu deall. • Mae'r dull hefyd wedi cyfrannu at gynnydd yn y ganran o weithwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant, gyda'r canran bellach yn **80% o'r gweithlu.** • Mae gwaith pellach ar y gweill i ymestyn y dull i grwpiau eraill o staff, gan gynnwys cogyddion ysgol, glanhawyr a gweithwyr ffyrdd. **Hyfforddiant Camfeithrin (Grooming)** • Mae e-fodiwl ar gamfeithrin (grooming), a ddatblygwyd ar y cyd â'r NSPCC, bellach yn fyw ac ar gael i holl staff y Cyngor ac Aelodau Etholedig. • Mae'r modiwl wedi'i hyrwyddo'n fewnol, a bydd lefelau cwblhau yn cael eu monitro er mwyn llywio unrhyw waith hyrwyddo pellach. • Cam nesaf y cynllun fydd datblygu hyfforddiant mwy arbenigol ar gyfer staff allweddol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, penaethiaid a Phersonau Dynodedig Diogelu. Mae hwn yn rhan o gomisiwn yr NSPCC. **Goruchwyliaeth Personau Dynodedig mewn Ysgolion** ***(Gweler y Papur Briffio sy'n egluro'r bwriad mewn manylder)*** • Yn dilyn trafodaeth mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant wedi cytuno i ddatblygu trefniant comisiynu ar gyfer darparu goruchwyliaeth allanol i Bersonau Dynodedig Diogelu a'u dirprwyon. • Bydd y trefniant yn darparu mynediad at weithiwr cymdeithasol cymwys ac annibynnol pan fo'r angen yn codi. Bydd hyn yn cynnig haen ychwanegol o fyfyrio, her a chefnogaeth broffesiynol, gan ategu'r trefniadau presennol sydd ar gael drwy ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant. • Bydd gweithredu'r trefniant drwy gytundeb ffurfiol, protocol cyfrinachedd clir a phroses mynediad syml yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn annibynnol, yn ddiogel ac yn hygyrch. Disgwylir i hyn gryfhau llesiant a hyder y rhai sy'n arwain

	ar ddiogelu, gwella ansawdd arferion ysgolion a chyfrannu at ymatebion mwy cyson ac effeithiol i anghenion plant a phobl ifanc. **Lefelau Hyfforddiant** • Mae'r gwaith o adnabod y carfanau o staff sydd angen lefelau gwahanol neu hyfforddiant arbenigol ar ddiogelu yn parhau. • Roedd bwriad yn wreiddiol i ddefnyddio arbenigedd allanol i gefnogi'r gwaith, ond mae hyn wedi achosi rhywfaint o oedi. • Er mwyn symud y gwaith yn ei flaen, mae tasglu mewnol bellach yn cael ei sefydlu, gyda chynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Hyfforddiant, y maes Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Dynodedig Diogelu adrannau. Bydd y tasglu yn arwain ar ddatblygu'r trefniadau hyfforddiant. **Canu'r Gloch** • Mae'r E-Fodiwl newydd o ran y polisi bellach yn fyw. Mae hwn yn fodiwl mandadol. • Mae'r modiwl wedi'i hyrwyddo'n eang gyda rheolwyr, penaethiaid a staff, a bydd lefelau cwblhau yn cael eu monitro er mwyn llywio unrhyw waith hyrwyddo pellach.
4. Heriau a wynebwyd:	Mae argaeledd arbenigedd allanol priodol wedi bod yn her ac wedi arwain at rywfaint o oedi wrth symud y gwaith lefelau hyfforddiant diogelu yn ei flaen. Mewn ymateb, mae trefniadau mewnol bellach yn cael eu datblygu er mwyn cynnal momentwm a sicrhau bod y gwaith yn parhau.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	1. Parhau i gynnal sesiynau hyfforddi torfol ar ddiogelu i staff sydd heb fynediad i systemau digidol y Cyngor. 2. Adnabod ffyrdd amgen o ran cyflwyno'r hyfforddiant Canu'r Gloch i'r staff hynny sydd heb fynediad i systemau digidol y Cyngor.
3. Risgiau / Adnoddau:	
4. Ystyriaethau Cyfathrebu:	

5. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
38	1	Hyfforddiant diogelu – lefelau a hyfforddiant uwch	Rhagfyr 2026
34	2	Goruchwyliaeth Personau Diogelu Dynodedig gan weithwyr cymdeithasol	Rhagfyr 2026
29	3	**Llywodraeth Cymru** i Gomisiynu Adnodd Hyfforddiant	-
31	3	Sicrwydd i'r **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** o'r hyfforddiant "grooming" sy'n cael ei gynnal	-
33	3	**Byrddau Diogelu Rhanbarthol** yn cael sicrwydd fod LADO wedi derbyn hyfforddiant	-
30	4	Hyfforddiant "grooming"	Wedi cwblhau – monitro parhaus
32	4	Polisi Canu'r Gloch	Wedi cwblhau – monitro parhaus
35	4	Hyfforddiant cadw cofnodion diogelu	Wedi cwblhau – monitro parhaus
36	4	Lefel hyfforddiant diogelu/VAWDASV adrannol	Monitro parhaus
37	4	Adolygu pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion	Parhaus
40	4	Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol pob dwy flynedd	Parhaus
41	4	Adolygu Polisi Diogelu (Ysgolion) pob blwyddyn	Parhaus
42	4	Archwiliad mewnol: Ymwybyddiaeth y gweithlu o ddiogelu	Wedi ei gwblhau
43	4	Monitro cydymffurfiaeth DBS	Monitro parhaus
44	4	Ymweliadau monitro trefniadau diogelu ysgolion (Tîm Diogelu a Lles)	Monitro parhaus
45	4	Ymchwiliad Craffu Diogelu	Wedi ei gwblhau

Llwyd = Tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Gwyrdd = Wedi gwblhau, monitro neu parhaol

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma




Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.



Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.



Mae **fideo wedi ei chreu ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu adolygiad o **Bolisi Diogelu Corfforaethol**



Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r NSPCC i greu **hyfforddiant penodol ar adnabod arwyddion o feithrin perthynas amhriodol** (grooming).



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Canllaw Canu'r Gloch newydd** i Cynghorwyr Gwynedd.



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.



Mae'r Cyngor wedi **cyflwyno hyfforddiant ar y Polisi "Canu'r Gloch"** ar gyfer holl staff a Chynghorwyr Gwynedd.



Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.



Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â phob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.



Cynyddwyd capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg ym mis Mawrth 2026- mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.



Mae'r **Ymchwiliad Craffu i ddiogelu mewn ysgolion** wedi'i gwblhau. Byddwn yn edrych ar roi ei argymhellion ar waith.

THEMA 4 - LLYWODRAETHU

Swyddog Adrodd: Alison Halliday

1.	**Nod Thema:**	• Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel • Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion
2.	**Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:**	Gofynnwn i'r Bwrdd; – Herio a chraffu ar gynnydd – Cynnig unrhyw arweiniad pellach am y camau nesaf
3.	**Cynnydd hyd yma:**	**Tîm Cefnogi Llywodraethwyr** Yn dilyn penodiad llwyddiannus i'r rôl Swyddog Cynghori Llywodraethiant (Clerc Proffesiynol) mae'r tîm Llywodraethiant bellach yn gyflawn gyda capasiti'r tîm wedi cynyddu o 2 i 4 ers Medi 2026. Mae'r ddwy glerc broffesiynol yn ymateb i anghenion clercio 10 o ysgolion drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, gyda'r Swyddog Cynghori Llywodraethiant hefyd ar gael i gynyddu capasiti i glercio mewn paneli annibynnol ysgolion amrywiol yn ogystal. **Dadansoddiad Holiadur Llywodraethiant Mehefin 2026** Mae canfyddiadau'r holiadur yn darparu darlun cadarnhaol o effeithiolrwydd llywodraethiant ar draws ysgolion Gwynedd. Mae rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi lefel uchel o hyder yn eu rôl fel cyfaill beirniadol, gan awgrymu bod y rhan fwyaf o gyrff llywodraethol yn teimlo'n hyderus i ddarparu cefnogaeth a her adeiladol i arweinwyr ysgolion. Roedd cryfderau amlwg yn cynnwys ffocws ar flaenoriaethau strategol, dealltwriaeth o gyfrifoldebau llywodraethol a pharodrwydd i herio er mwyn gwella darpariaeth a deilliannau. Mae'r holiadur hefyd wedi amlygu meysydd datblygu clir, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio a dehongli data, cwestiynu a herio effeithiol, dealltwriaeth o gyfrifoldebau statudol a pharatoi ar gyfer arolygiadau. Nodwyd galw cryf am hyfforddiant pellach ym meysydd diogelu, ADY, cyllid a llywodraethiant strategol. Gan fod yr holiadur yn seiliedig ar hunan-arfarnu yn hytrach na mesurau allanol, bydd y canfyddiadau'n gweithredu fel gwaelodlin bwysig ar gyfer monitro effaith y rhaglen hyfforddiant ddiwygiedig a'r gefnogaeth estynedig i gyrff llywodraethol dros y blynyddoedd nesaf. **Rhaglen Hyfforddiant Ddiwygiedig i Lywodraethwyr** Mae dadansoddiad yr holiadur wedi llywio datblygiad rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a nodwyd gan lywodraethwyr. Mae'r rhaglen yn cyfuno hyfforddiant statudol a datblygiad ehangach er mwyn cryfhau gallu cyrff llywodraethol i gyflawni eu rôl strategol a'u swyddogaeth fel cyfeillion beirniadol. Mae disgwyliadau clir bellach wedi'u sefydlu ar gyfer cwblhau hyfforddiant mandadol gan gynnwys anwytho llywodraethwyr newydd, hyfforddiant cadeiryddion, diogelu a hyfforddiant clercod. Yn ogystal, bydd rhaglen estynedig yn cynnwys meysydd â galw uchel megis data, ADY, cyllid, delio â chwynion ac iechyd a diogelwch.

	Bydd y rhaglen yn cael ei darparu drwy gyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb, rhithiol ac wedi'u recordio, gan ymateb yn uniongyrchol i ddewisiadau a nodwyd gan lywodraethwyr yn yr holiadur. O ganlyniad i'r cynnydd yng nghapasiti'r tîm, bydd modd cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i gyrff llywodraethol lle mae angen datblygu hyder neu gryfhau arferion llywodraethiant. **Rhaglenni Cyfarfodydd am y Flwyddyn** Mae rhaglenni cyfarfodydd diwygiedig wedi'u cyflwyno ym mhob ysgol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb mewn llywodraethiant a chryfhau'r ffocws ar ddiogelu, llesiant a llais y plentyn o fewn gwaith y Corff Llywodraethol. Mae'r rhaglenni wedi'u rhannu â phenaethiaid, cadeiryddion, clercod a llywodraethwyr fel rhan o'r pecyn llywodraethiant diwygiedig. Disgwylir i'r trefniadau newydd gefnogi craffu mwy systematig ar flaenoriaethau allweddol, cynyddu cysondeb rhwng cyrff llywodraethol a sicrhau sylw priodol i gyfrifoldebau statudol a strategol yn ogystal a rhoi lle blaenllaw i ddiogelu, llesiant a llais y plentyn drwy gydol y flwyddyn. **Fforwm Clercod Medi 2026** Mae tri fforwm rhanbarthol wyneb yn wyneb ac un sesiwn rithiol wedi'u cynnal ers dechrau'r tymor, gyda bron pob clerc yn bresennol. Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol, gyda chlercod yn adrodd gwell dealltwriaeth o weithdrefnau, mwy o hyder yn eu rôl a mwy o gysondeb yn y trefniadau llywodraethiant a weithredir ar draws ysgolion. Mae arwyddion cynnar yn dangos effaith gadarnhaol ar arferion gweinyddol, gan gynnwys cynnydd yn nifer y clercod sy'n cyflwyno cofnodion a dogfennau llywodraethiant yn brydlon i'r Awdurdod. **Peilot Governor Hub** Ers y cyfarfod diwethaf ,mae 12 ysgol, gan gynnwys un ysgol Uwchradd wedi cychwyn peilota'r dashwfrdd Governor Hub eleni. Bu i benaethiaid a chlercod dderbyn hyfforddiant yn gynnar yn mis Medi. Mae'r adborth gychwynnol yn gadarnhaol.
4. Heriau a wynebwyd:	Pryder wedi ei fynegi gan leiafrif o benaethiaid bod y rhaglen hyfforddiant yn ymddangos yn drwm ar ein llywodraethwyr. Bydd angen sicrhau eglurder o pa hyfforddiant sy'n fandadol a pha hyfforddiant sy'n ddewisol ac ar gais y llywodraethwyr.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Cynnal Fforwm Cadeiryddion • Cynnig arweiniad i gyrff llywodraethol a phenaethiaid ar y drefn hunanwerthuso statudol • Gweithredu y rhaglen hyfforddiant • Aros am ddiweddariad i'r Adolygiad i Gyrff Llywodraethu gan Llywodraeth Cymru
6. Risgiau / Adnoddau:	**Risg** • Addasu trefniadau'r Awdurdod o ran llywodraethiant yn ormodol cyn derbyn arweiniad cenedlaethol yn dilyn yr adolygiad. • Gorlwytho llywodraethwyr efo hyfforddiant.

7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	• Bydd angen cyfathrebu unrhyw newid yn ein disgwyliadau yn glir a di-amwys er mwyn i bob Cadeirydd a llywodraethwyr ddeall bod terfyn amser ar gyfer cwblhau unrhyw hyfforddiant mandadol.

8. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
46	2	**Llywodraeth Cymru** i amlygu cyfrifoldebau Llywodraethwyr	I'w gadarnhau gan LIC
52	3	Cymharu trefniadau Llywodraethu YF â Ysgolion eraill	I'w gadarnhau
47	4	Dangosfwrdd i lywodraethwyr ar iechyd a lles ysgol	Peilota
48	4	Llywodraethwyr i gadw cofnodion cywir o benderfyniadau diogelu	Rhaglen Hyfforddiant Parhaus
49	4	Amlygu beth yw rôl Llywodraethwyr mewn trefn ymchwilio ac atal	Mehefin 2026 / Parhaus
50	4	Dysgu gwersi wrth ymdrin a chwynion i'r dyfodol	Parhaus – achos tebyg i ICC 2019 heb ddigwydd
51	4	Hyfforddiant a Chefnogaeth i Lywodraethwyr	Aros canfyddiadau adolygiad LIC

Llwyd = Tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Gwyrdd = Wedi gwblhau, monitro neu parhaol

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma



Penodwyd **Swyddog newydd i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion.**



Mae Cadeiryddion a Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn derbyn **hyfforddiant ychwanegol** i'w cefnogi yn eu rôl.



Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.



Mae **Clerc Proffesiynol** bellach yn ei le i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion




Mae'r Cyngor yn peilota GovernorHub i gefnogi Llywodraethwyr drwy roi gwybodaeth glir iddynt am **iechyd a lles yr ysgol**



Mae **Fforymau Clercod a Chadeiryddion** wedi'u sefydlu i rannu arfer da a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael.



Ers mis Medi 2026, mae **rhaglen hyfforddiant gryfach** ar waith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion.



Mae pob Corff Llywodraethu bellach yn cael **rhestr glir o'r pethau pwysig** y dylai nhw eu trafod yn rheolaidd.

THEMA 5 – ARFERION CYFYNGOL ***Swyddog Adrodd: Llion Williams***	
1. Nod Thema:	• Arfarnu polisi a strwythur hyfforddi ymyrraeth gynnar yn ogystal â diweddaru arweiniad i ysgolion am ffilmio ymyrraeth gorfforol .
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	Comisiynwyd cwmni allanol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau'r Awdurdod mewn perthynas â'r polisi a'r arferion sy'n ymwneud â lleihau ymyrraeth gyfyngol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwerthuso'r polisi presennol yn erbyn canllawiau cenedlaethol, dadansoddi cryfderau a gwendidau'r trefniadau, asesu trefniadau hyfforddi a monitro, a gwneud argymhellion ar gyfer cryfhau llywodraethiant, atebolrwydd, defnydd o ddata ac ymarfer adferol. Canfu'r adolygiad fod gan yr Awdurdod sail bolisi gref sy'n cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a'r Fframwaith Lleihau Ymyrraeth Gyfyngol (Cymru, 2022). Nodwyd cryfderau sylweddol, gan gynnwys ymrwymiad i hawliau dynol, pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, a dealltwriaeth gadarn o'r fframwaith cyfreithiol. Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad mai'r prif heriau oedd diffygion mewn gweithredu, monitro, dadansoddi data, llywodraethiant a chysondeb ymarfer rhwng ysgolion, yn hytrach nag unrhyw wendidau sylfaenol yn y polisi ei hun. Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae'r Awdurdod wedi gweithredu'r argymhellion a nodwyd gan yr adolygiad. Mae strwythur llywodraethiant clir bellach wedi'i sefydlu gyda rolau, cyfrifoldebau a threfniadau goruchwylio wedi'u diffinio ar lefel ysgol, gwasanaeth ac awdurdod. Datblygwyd system ddata ganolog sy'n galluogi casglu, monitro a dadansoddi gwybodaeth yn gyson ar draws pob ysgol, gyda gweithgor amlasiantaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu data, adnabod tueddiadau a thargedu cymorth a hyfforddiant lle bo angen. Mae'r polisi hefyd wedi'i ddiweddaru i gryfhau'r elfen weithredol, gan gynnwys eglurder ynghylch trefniadau llywodraethiant a monitro, gofynion cofnodi manylach, canllawiau clir ar drothwyon ymyrraeth, a disgwyliadau penodol ynghylch cofnodi digwyddiadau. Yn ogystal, mae strategaeth hyfforddi awdurdod-gyfan wedi'i sefydlu gyda llwybr datblygu tair lefel sy'n sicrhau ymwybyddiaeth, cymhwysedd ac arweinyddiaeth briodol ar draws y gweithlu. Lluniwyd cynllun gweithredu manwl gan y gweithgor gyda deilliannau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir. Mae'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig bellach wedi'u cwblhau, gan gynnwys diwygio'r polisi, sefydlu'r trefniadau llywodraethiant, datblygu'r system ddata a rhoi'r fframwaith hyfforddi ar waith. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi symud o ffocws ar ddatblygu polisi i system weithredu fwy cadarn sy'n galluogi monitro, herio a gwella ymarfer mewn modd cyson a systematig ar draws pob ysgol. Mae trefniadau parhaus bellach mewn lle i werthuso effaith a sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus ar draws yr awdurdod.

4.	**Heriau a wynebwyd:**	• Llithriad yn amserlen cwblhau'r arfarniad allanol wedi achosi ymestyn yr amserlen gweithredu. • Yr angen i adrodd ar ddigwyddiadau drwy'r drefn HS11 ac i'r Adran Addysg yn risg bod un adroddiad yn cael ei chyflwyno yn lle dwy. Gofynion a dull adrodd i'r Adran Addysg wedi ei lliniaru i ymateb i hyn
5.	**Y camau nesaf/ cerrig milltir allweddol:**	• Gweithredu y trefniadau monitro a gwerthuso effaith er mwyn adnabod; Anghenion hyfforddiant pellach, tueddiadau, arferion da a chydymffurfiaeth. • Monitro safon ac ansawdd yr adroddiadau sydd yn cael eu cyflwyno gan yr ysgolion
6.	**Risgiau / Adnoddau:**	• Cydymffurfiaeth parhaus ysgolion – Trefn monitro wedi ei sefydlu i ymateb i hyn
7.	**Ystyriaethau Cyfathrebu:**	-
8.	**Amserlenni:**	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
53	2	Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Canllaw ar ffilmio achosion arferion cyfyngol	I'w gadarnhau gan LlC
53.1	"	Sefydlu is-grwp - ymchwilio	Rhagfyr - Cwblhawyd
53.2	"	Adolygu'r polisi	Ionawr 2026
53.3	"	Mabwysiadu'r polisi	Chwefror 2026 ac yn flynyddol
53.4	"	Darparu hyfforddiant	Medi 2026 ac yn barhaus
53.5	"	Monitro	Medi 2026 ac yn fisol

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau, monitro neu parhaol

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma



Mae'r **Polisi Arferion Cyfyngol** arweiniol wedi ei fabwysiadu gan pob Ysgol yng Ngwynedd



Mae **adolygiad annibynnol o arferion cyfyngol** wedi'i gynnal, gan arwain at gyfres o argymhellion i'w gweithredu.



Mae grŵp o swyddogion ar draws y Cyngor yn cyfarfod i **adolygu a monitro achosion lle mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio.**

THEMA 6 - CYNLLUNIO ARGYFWNG AC YMATEB I ARGYFWNG *Swyddog Adrodd: Catrin Love*	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	Mae Cynllun Crisis (gweithredol) terfynol mewn lle. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda grwp o Benaethiaid Ysgolion, ac Undebau Llafur i gynnwys Undebau Addysg. Mae'r Cynllun yn barod i'w rannu a'i gyfathrebu gyda ysgolion a llywodraethwyr gyda chynllun mewn lle i wneud hynny Tymor yr Hydref. Mae gwaith yn digwydd i adolygu ein trefniadau strategol i gyd-fynd â hyn er mwyn sicrhau fod pob elfen wedi ei gynnwys o fewn Cynllun Argyfwng Strategol sydd eisoes yn bodoli. Canfyddiadau wedi eu rhannu gyda'r Grwp Cynllunio Argyfwng gyda rhaglen waith glir mewn lle. Cyflwyniad cychwynnol ar y Cynllun i ysgolion yn ystod Medi / Hydref trwy gyfarfodydd busnes Penaethiaid. Cyfarfod cynradd wedi ei gynnal ar y 30/09/2026 Cytundeb hefo'r Cynradd i gynnal cyfres o weithdai ar ôl hanner tymor sydd wrthi yn cael eu trefnu. Cyfarfod Penaethiaid Uwchradd i'w gynnal 07/10/26
4. Heriau a wynebwyd:	
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	1. Cynnal cyfres o weithdai ar draws y Sir 2. Ymgysylltu gyda cadeiryddion Llywodraethwyr (trwy fforwm Cadeiryddion) er mwyn cyflwyno y Cynllun a sicrhau fod pob Corff yn ymwybodol o bwysigrwydd y Cynllun a'r gofyn fod staff pob ysgol yn ymwybodol ohono. (Mis Tachwedd) 3. Cyflwyno pecyn hyfforddiant cryno i bob Pennaeth fynd trwy y Cynllun gyda staff 4. Sicrhau fod trefniadau yn plethu mewn i drefniadau monitro ehangach wrth symud ymlaen e.e. holiadur blynyddol diogelu ynghyd â gwiriadau safle iechyd a diogelwch ayb. 5. Cyflwyno newidiadau i strwythur a threfniadau strategol y Cyngor o gynllunio ac ymateb i argyfyngau
6. Risgiau / Adnoddau:	Adnodd ychwanegol wedi ei gymeradwyo i roi gymorth gyda'r gwaith hyfforddiant tros y tymor nesaf a gwreiddio trefniadau
7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	

8. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
54	4	Adolygu'r cynllun digwyddiadau difrifol strategol	Cyfnod ymgynghori ***31/3/26.*** Rhaglen hyfforddi ***Tymor yr Haf 2026***
57	4	Trefnu secondiad i weithiwr cymdeithasol i weithio â'r Heddlu (yn unol a'r angen)	Medi 2026
55	4	Protocol swyddogol i rannu gwybodaeth	Wedi ei gwblhau
56	4	Cynllun mewn grym sy'n gosod camau i gael cymorth cyflym mewn digwyddiad trawmatig	Wedi ei gwblhau
54	4	Rhaglen o hyfforddiant ar draws ysgolion y Sir	Tymor yr Hydref 2026

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)

Gweler Eitem 4 ar gyfer mesurau effaith

Allbynnau hyd yma



Mae cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng.** Gall hyn fod yn weithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).



Mae **Cynllun Argyfwng Ysgolion** newydd bellach ar waith i helpu ysgolion i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng



Mae'r Cyngor yn **cyflwyno gweithdy hyfforddiant ar y Cynllun Argyfwng i bob Ysgol.**

Thema 7 – Ysgol Friars ***Swyddog sy'n Adrodd: Margaret Davies***	
1. Nod y Thema:	• Cefnogi Ysgol Friars
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Rydym yn gofyn i'r Bwrdd: - Herio a chraffu'r cynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Ar ddechrau'r tymor hwn, cawsom ein tristáu'n enfawr gan farwolaeth disgybl Blwyddyn 11 yn Ysgol Friars, sy'n gyfnod hynod o anodd i'n cymuned ysgol. Mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad diffuant yn parhau gyda'i deulu a'i ffrindiau, yn ogystal â phob aelod o gymuned yr ysgol a effeithiwyd gan y golled drasig hon. Mae lles ein disgyblion yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Mae cwnsela arbenigol a chymorth bugeiliol ychwanegol ar gael yn yr ysgol a bydd yn parhau yn ôl yr angen. Anogir disgyblion a theuluoedd i fanteisio ar y cymorth hwn trwy'r Arweinydd Cynnydd.
3. Cynnydd hyd yn hyn:	**Parhau i glercio'r Corff Llywodraethu hyd nes bod trefniadau cynaliadwy yn eu lle – wedi cwblhau** • Mae'r ysgol wedi ymuno â Chytundeb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer darparu gwasanaeth Clerc i Lywodraethwyr. **Adolygu gallu'r Corff Llywodraethu i weithredu argymhellion sy'n deillio o'r CPR – parhau** • Mae Swyddog Diogelu'r Awdurdod Lleol yn mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac is-bwyllgorau i ddarparu cymorth a monitro cynnydd. **Cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr mewn diogelu, atebolrwydd strategol a monitro perfformiad – parhaus** • Gofynnir i'r holl lywodraethwyr a llywodraethwyr newydd gwblhau hyfforddiant diogelu NSPCC erbyn gwyliau hanner tymor mis Hydref. • Rhoddir trosolwg i'r Corff Llywodraethu ar Drefniadau Diogelu'r ysgol. • Mae'n ofynnol i bob Llywodraethwr gwblhau'r hyfforddiant Grŵp A, hyfforddiant cam-feithrin (grooming) a ddarperir gan yr Awdurdod lleol yn ogystal â hyfforddiant 'Prevent'. • Mae ein llywodraethwyr diogelu dynodedig a'u dirprwyon yn mynychu hyfforddiant wedi'i hwyluso gan yr awdurdod

	lleol. • Mae'r holl lywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant anwytho'r awdurdod lleol. Disgwylir i'r holl lywodraethwyr newydd ers mis Medi gwblhau eu hyfforddiant anwytho erbyn diwedd y tymor cyntaf. • Mae'r hyfforddiant cynhwysfawr a gynigir gan yr Awdurdod Lleol wedi'i rannu â'r llywodraethwyr ar 6/10/2026, gan annog iddynt fynychu cynifer o sesiynau â phosib. • Mae'r ysgol wedi gofyn am gefnogaeth gan ei swyddog gwella dynodedig i weithio'n uniongyrchol ar ddatblygu'r corff fel cyfaill beirniadol. Gan fod yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi newid, bydd y gefnogaeth hon yn dechrau yn ystod ail hanner tymor yr hydref. **Cefnogi'r Pennaeth, y Dirprwy Benaethiaid a'r Penaethiaid Cynorthwyol i ddatblygu tîm arweinyddiaeth cryf – parhaus** • Mae'r YCG yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor yn ôl yr angen. • Bob hanner tymor cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth o drawma ar gyfer aelodau'r tîm arweinyddiaeth, ochr yn ochr â goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer y Person Dynodedig Diogelu. • Mae'r ysgol yn parhau i weithio gydag ysgolion partner trwy Gynghrair yr A55 a phartneriaethau gydag ysgolion lleol eraill yng Ngwynedd. • Mae'r tîm yn darparu sefydlogrwydd a chysondeb a dyma bellach yw ei ail flwyddyn yn yr ysgol. **Cefnogi recriwtio a throsglwyddo i Bennaeth parhaol yn ystod 2026 – wedi cwblhau** • Penodwyd Pennaeth parhaol a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Medi 2026. **Cryfhau arweinyddiaeth ganol a sicrhau bod prosesau rheoli yn weithredol ac yn dryloyw** • Mae Llywodraethwyr Cyswllt wedi eu penodi ac mae canllawiau ar gyfer ymweliadau cefnogol gan lywodraethwyr wedi'u mabwysiadu. • Mae anghenion datblygu staff yn cael eu nodi drwy'r broses rheoli perfformiad (PDR). • Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Dysgu i gefnogi arweinwyr canol a CGADY sy'n newydd i'r swydd. **Adolygu a chryfhau trefniadau cwnsela a chymorth emosiynol**

	– parhaus • Mae'r Ganolfan Llesiant yn darparu gwasanaethau cwnsela, iechyd meddwl a chymorth arall i ddisgyblion, ac fe'i defnyddir i gefnogi disgyblion ag anawsterau presenoldeb ac i hwyluso cyfarfodydd gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol. • Fe'i defnyddir hefyd gan nifer o asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaeth nyrsio ysgol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth arbenigol arall. • Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol ac mae'r ALl wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ymateb i'n ceisiadau am gefnogaeth. Rydym yn ddiolchgar am lefel y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod anodd ddechrau fis Medi 2026. **Sicrhau bod rôl y Swyddog Diogelu ychwanegol dros dro yn cael ei hintegreiddio'n effeithiol, gyda fframwaith clir o ran atebolrwydd a throsolwg - parhaus** • Mae hyfforddiant diogelu Grŵp C yn ei le. • Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng y Pennaeth a'r Person Diogelu Dynodedig. • Er bod yr ysgol mewn sefyllfa ariannol anodd, mae rôl y swyddog diogelu yn rhan hanfodol o ymateb diogelu'r ysgol. Mae nifer y pryderon wedi bod yn uchel iawn ers dychwelyd ym mis Medi, gyda chynnydd sylweddol mewn hunan-niweidio. Mae'r swyddog diogelu sy'n cefnogi'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) yn darparu'r gallu i ymateb i'r holl bryderon a godir yn yr ysgol. **Cynnal archwiliadau diogelu rheolaidd a darparu sicrwydd parhaus i'r Awdurdod a'r Bwrdd Rhaglen** • Mae hunan-werthusiad diogelu Estyn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i gyflwyno i lywodraethwyr fel rhan o broses hunan-werthuso diogelu'r ysgol. • Mae archwiliad diogelu ysgolion yn ei le ac mae'n bwydo i'r cynllun gweithredu diogelu. • Mae ymweliad diogelu'r Awdurdod Lleol wedi'i gwblhau. • Mae'r hunan-werthusiad diogelu wedi'i rannu gyda'r awdurdod lleol yn ystod tymor yr haf fel rhan o brosesau monitro'r ALl. **Cryfhau dulliau cyfathrebu gyda rhieni, disgyblion a'r gymuned ehangach** • Mae gwefan yr ysgol wedi'i diweddaru ac mae'n parhau i

	gael ei diwygio mewn ymateb i adborth. • Mae ClassCharts wedi'i gyflwyno, gyda hyfforddiant staff wedi'i gwblhau. Mae'r system ar gael i rieni a gofalwyr ac mae'n cael ei datblygu ymhellach i gefnogi cyfathrebu. • Mae sesiynau galw heibio rheolaidd i rieni wedi'u cyflwyno, a chynhaliwyd sesiynau gwybodaeth i rieni. • Mae gohebiaeth barhaus gyda rhieni yn digwydd. • Mae trefniadau cofrestru yn y bore wedi'u hymestyn i ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu. **Cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a chamau gweithredu'r ysgol, gan gynnwys ymatebion i argymhellion y CPR** • Mae'r ysgol yn parhau i weithio gydag Adran Gyfathrebu'r Awdurdod Lleol ar drefniadau cyfathrebu.
4. Heriau a wynebir:	• Cynnydd sylweddol mewn pryderon diogelu o fis Medi 2026
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	
6. Risgiau / Adnoddau:	
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	
8. Amserlenni:	

Cryfhau'r Cydweithio rhwng Ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant

Papur Briffio i Fwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb Estyn

Cefndir

Mae arolygiad Estyn a'r Cynllun Ymateb cysylltiedig wedi gosod disgwyliad clir bod gwasanaethau'n gweithio mewn ffordd fwy integredig er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth amserol, briodol a chydlynol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gryfhau'r berthynas rhwng ysgolion, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant. Mae hyn wedi cynnwys datblygu perthnasoedd gweithredol cryfach, gwella llwybrau cyfathrebu, cynyddu cyfraniad Addysg i brosesau statudol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fwy effeithiol rhwng partneriaid.

Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gryfhau'r trefniadau gweithredol presennol, datblygu dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau, a sicrhau bod pryderon yn cael eu trafod ar yr adeg briodol. Y nod yw galluogi ysgolion a gwasanaethau i lunio darlun mwy cyflawn o anghenion y plentyn a'r teulu, ac i gydlynu ymateb cymesur ar y cyfle cynharaf.

Beth sydd wedi newid?

Perthnasoedd gwaith cryfach

Mae'r Tîm Diogelu ac Ansawdd Llesiant wedi chwarae rhan allweddol wrth gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant. Mae'r Tîm yn hwyluso cyfathrebu a llif gwybodaeth, yn cefnogi ysgolion i gael mynediad at gyngor priodol, ac yn helpu i ddatrys materion gweithredol pan fo angen eglurder neu ymateb amlasiantaethol.

Mae llif gwybodaeth rhwng gwasanaethau wedi gwella ac mae perthnasoedd gwaith mwy agored wedi'u sefydlu rhwng:

- Personau Dynodedig Diogelu ysgolion;
- y Tîm Diogelu ac Ansawdd Llesiant;
- rheolwyr a swyddogion y Gwasanaethau Plant;
- y Gwasanaeth Derbyn Cyfeiriadau;
- Swyddogion Adolygu Annibynnol;
- gweithwyr cymdeithasol.

Un enghraifft o hyn yw presenoldeb swyddogion y Gwasanaethau Plant mewn hyfforddiant i Bersonau Dynodedig Diogelu. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o drothwyon, cyfrifoldebau a disgwyliadau. Mae hefyd wedi galluogi ysgolion i ofyn cwestiynau uniongyrchol, trafod heriau ymarferol a meithrin perthnasoedd proffesiynol gyda'r swyddogion sy'n rhan o'r prosesau perthnasol.

Mae adborth gweithredol gan ysgolion yn awgrymu bod staff yn fwy hyderus wrth geisio cyngor ac yn fwy sicr ynghylch y prosesau sydd ar waith. Mae hyn wedi creu sylfaen gryfach ar gyfer codi pryderon yn brydlon a sicrhau ymateb ar y cyd pan fo angen.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth ar lefel strategol

Mae'r trefniadau cydweithio hefyd yn cael eu cryfhau ar lefel uwch-reoli. Mae'r Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant, neu uwch swyddog priodol o'r Adran Addysg, wedi mynychu ac yn bwriadu parhau i fynychu cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant yn rheolaidd. Diben hyn yw sicrhau bod gwybodaeth berthnasol, risgiau sy'n dod i'r amlwg a materion sydd angen ymateb ar y cyd yn cael eu

trafod ar lefel strategol, a bod safbwynt Addysg yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu penderfyniadau a blaenoriaethau'r Gwasanaethau Plant.

Fel rhan o'r dull dwyffordd hwn, bydd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Plant hefyd yn mynychu cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Adran Addysg. Bydd hyn yn cynnig llwybr cyson i rannu gwybodaeth ar lefel uchel, adnabod materion traws-wasanaeth yn gynharach, a sicrhau bod penderfyniadau strategol y ddau wasanaeth yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth gyffredin o anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Yn ogystal, bwriedir sicrhau cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Plant mewn cyfarfodydd neu fforymau penaethiaid ysgolion. Bydd hyn yn galluogi arweinwyr ysgolion i gael gwybodaeth uniongyrchol am ddatblygiadau, disgwyliadau a llwybrau cymorth, ac yn rhoi cyfle i'r Gwasanaethau Plant glywed yn uniongyrchol am brofiadau ac anghenion ysgolion.

Mae'r trefniadau hyn yn symud y cydweithio y tu hwnt i gysylltiadau ar achosion unigol, ac yn creu strwythur mwy cyson ar gyfer cydgynllunio, herio adeiladol a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol

Mae cyfraniad Addysg i brosesau diogelu ffurfiol wedi cynyddu. Mae presenoldeb yr Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant mewn Trafodaethau Strategaeth Rhan 5 wedi sicrhau bod gwybodaeth addysgol berthnasol yn cael ei hystyried yn gynharach mewn prosesau asesu risg a gwneud penderfyniadau.

Mae hyn yn galluogi gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad, llesiant, anghenion dysgu ac unrhyw newid ym mhrofiad dyddiol y plentyn yn yr ysgol i gyfrannu at y darlun amlasiantaethol. Lle bo angen, gall yr Arweinydd hefyd hwyluso cyswllt pellach â'r ysgol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cyfredol ar gael.

Mae perthnasoedd gwaith cryfach wedi'u datblygu rhwng Swyddogion Diogelu'r Tîm Diogelu, Rheolwr y Gwasanaeth Derbyn Cyfeiriadau a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Mae hyn wedi galluogi:

- ymatebion cyflymach i geisiadau am wybodaeth;
- trafodaethau mwy effeithiol ynghylch risg ac anghenion;
- gwneud penderfyniadau mwy gwybodus;
- gwell dealltwriaeth o amgylchiadau a phrofiadau plant;
- datrys materion gweithredol yn gynharach.

O ganlyniad, mae llwybrau cyfathrebu'n gliriach ac mae mwy o gyfle i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol gan ysgolion yn cael ei defnyddio'n briodol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Ffocws cryfach ar gymorth cynnar

Mae newid cadarnhaol wedi digwydd yn y ffordd y mae ysgolion yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae mwy o ysgolion bellach yn cysylltu ar gyfnod cynharach pan fo pryderon yn dechrau datblygu, yn hytrach nag aros nes bod amgylchiadau teulu wedi dod yn gymhleth neu fod lefel y risg wedi cynyddu.

Mae hyn wedi galluogi trafodaethau proffesiynol cynharach ynghylch y math mwyaf priodol o gymorth, yr wybodaeth sydd ei hangen a'r gwasanaethau a allai gyfrannu. Mae'r newid hwn yn helpu i symud y pwyslais tuag at atal, ymyrraeth gynnar a chymorth cymesur.

Mae cyfraniad swyddogion y Gwasanaethau Plant mewn hyfforddiant Grŵp C, sef hyfforddiant i Bersonau Dynodedig Diogelu ysgolion, wedi helpu ysgolion i wella:

- ansawdd cyfeiriadau Cymorth Buan;
- ansawdd a pherthnasedd adroddiadau;
- yr wybodaeth a gyflwynir mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant;
- dealltwriaeth o ddisgwyliadau gwasanaethau;

- y ffordd y cyflwynir llais, profiad ac anghenion y plentyn.

Mae'r mewnbwn uniongyrchol hwn wedi rhoi arweiniad ymarferol i ysgolion ar ba wybodaeth sy'n helpu gwasanaethau i asesu anghenion, gwneud penderfyniadau a chynllunio ymateb priodol.

Cyfraniad i Strategaeth y Drws Cywir

Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn cydweithio'n agos i weithredu Strategaeth y Drws Cywir yn lleol. Mae'r gwaith ar y cyd yn canolbwyntio ar sicrhau ymateb cydlynol ac amserol i achosion, drwy rannu gwybodaeth berthnasol, cydlynu cyfraniadau gwasanaethau a chytuno ar yr ymateb mwyaf priodol i anghenion y plentyn a'r teulu. Mae'r ddau wasanaeth hefyd yn cydweithio i adnabod a dileu rhwystrau a allai atal neu oedi mynediad at y gefnogaeth briodol, gan leihau'r angen i blant a theuluoedd ailadrodd eu stori neu gael eu cyfeirio'n ddiangen rhwng gwasanaethau.

Mae cyfraniad Addysg yn bwysig oherwydd bod ysgolion yn aml yn adnabod newidiadau mewn presenoldeb, ymddygiad, llesiant neu amgylchiadau teulu ar gyfnod cynnar. Drwy gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ymateb mwy amserol, cydlynol a chymesur.

Mae'r gwaith ar y Strategaeth yn darparu cyd-destun ehangach i'r datblygiadau a amlinellir yn y papur hwn. Mae'n cysylltu'r gwaith ar ddiogelu, cymorth cynnar, cyfranogiad a rhannu gwybodaeth, ac yn cryfhau'r disgwyliad bod gwasanaethau'n cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am helpu plant a theuluoedd i gyrraedd y gefnogaeth briodol.

Cryfhau capasiti a seilwaith y cydweithio

Mae swyddi ac adnoddau newydd wedi'u datblygu i gryfhau'r capasiti ar draws Addysg a'r Gwasanaethau Plant ac i roi sylfaen fwy cynaliadwy i'r trefniadau cydweithio. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys:

- swyddog ar gyfer TDC, wedi'i ariannu drwy gyfraniad gan Addysg;
- swydd cyfranogiad plant a phobl ifanc ar y cyd rhwng y gwasanaethau;
- swydd neu adnodd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu goruchwyliaeth i swyddogion dynodedig.

Mae'r swyddi a'r adnoddau hyn yn cynyddu'r gallu i gydlynu gweithgarwch, cynnal ffocws ar lais plant a phobl ifanc, a darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth fwy cyson i'r gweithlu. Maent hefyd yn dangos ymrwymiad ymarferol y ddau wasanaeth i fuddsoddi ar y cyd mewn meysydd lle mae cyfrifoldebau ac amcanion yn gorgyffwrdd.

Astudiaeth achos

Cymorth a chraffu strategol yn Ysgol Friars

Mae'r Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant yn mynychu cyfarfodydd Corff Llywodraethol Ysgol Friars, yn ogystal â Phanel Llesiant rheolaidd yr ysgol. Mae'r trefniant hwn wedi cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant, ac wedi darparu llwybr clir i'r ysgol gael mynediad at gyngor, arweiniad a chefnogaeth amserol.

Drwy gyfrannu at y cyfarfodydd hyn, gall yr Arweinydd ddarparu her a chefnogaeth broffesiynol mewn perthynas â threfniadau diogelu a llesiant yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar brosesau mewnol, ystyried ansawdd a chysondeb adroddiadau diogelu, a sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau a llwybrau uwchgyfeirio yn cael eu deall yn glir.

Mae presenoldeb yr Arweinydd yn y Panel Llesiant hefyd yn galluogi pryderon neu faterion gweithredol i gael eu hadnabod a'u trafod yn gynnar. Pan fo angen mewnbwn neu gefnogaeth ychwanegol, gall yr

Arweinydd hwyluso cysylltiadau amserol â'r Gwasanaethau Plant a gwasanaethau perthnasol eraill. Mae hyn yn lleihau'r risg o oedi neu ddiffyg eglurder ac yn cefnogi ymateb mwy cydlynol i anghenion plant a phobl ifanc.

Effaith

Mae'r trefniant wedi rhoi sicrwydd ychwanegol i lywodraethwyr bod craffu annibynnol a phroffesiynol yn digwydd ar brosesau ac adroddiadau diogelu'r ysgol. Mae hefyd wedi cryfhau gallu'r Corff Llywodraethol i gyflawni ei swyddogaeth o oruchwylio, herio a sicrhau ansawdd mewn perthynas â diogelu a llesiant.

I'r ysgol, mae'r trefniant wedi darparu mynediad mwy uniongyrchol at gyngor, arweiniad a chefnogaeth amserol. Mae wedi cryfhau'r cysylltiadau â'r Gwasanaethau Plant, hwyluso datrys materion yn gynharach, a sicrhau bod yr ysgol yn gallu cael y cymorth priodol pan fo pryderon neu anghenion yn dod i'r amlwg.

Yn ehangach, mae'r enghraifft yn dangos sut y gall presenoldeb strategol a gweithredol Addysg mewn trefniadau llywodraethu a llesiant ysgol gryfhau atebolrwydd, gwella arferion diogelu a chefnogi ymateb amlasiantaethol mwy amserol a chydlynol.

Beth yw'r effaith wrth gryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant?

Ar arferion proffesiynol

Mae'r gwaith wedi arwain at:

- berthnasoedd gwaith mwy aeddfed rhwng gwasanaethau;
- gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau;
- mwy o ymddiriedaeth broffesiynol;
- gwell ansawdd trafodaethau amlasiantaethol;
- gwneud penderfyniadau mwy gwybodus;
- mwy o gyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau ymateb priodol i anghenion plant;
- mwy o aliniad rhwng blaenoriaethau strategol Addysg a'r Gwasanaethau Plant.

Ar blant a theuluoedd

Mae'r dystiolaeth weithredol hyd yma yn awgrymu:

- bod mwy o blant a theuluoedd yn cael cymorth ar gyfnod cynharach;
- bod ymatebion i bryderon yn fwy amserol;
- bod gwell cydlynu rhwng gwasanaethau;
- bod cynlluniau cymorth yn fwy cydlynol;
- bod penderfyniadau'n seiliedig ar ddealltwriaeth fwy cyflawn o brofiadau'r plentyn;
- bod llai o risg y bydd gwybodaeth addysgol berthnasol yn cael ei hepgor o drafodaethau allweddol;
- bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gynnwys yn fwy cyson wrth ddatblygu gwasanaethau.

Mae angen parhau i ddatblygu'r dystiolaeth feintiol er mwyn mesur yr effaith dros amser. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau gweithredol, y trefniadau strategol newydd a'r buddsoddiad mewn capasiti ar y cyd yn darparu tystiolaeth gadarnhaol o gynnydd.

Camau nesaf

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd hwn, cynigir:

- Parhau i ddatblygu hyfforddiant ar y cyd rhwng ysgolion a'r Gwasanaethau Plant, gan gynnwys cyfraniadau ymarferol gan swyddogion y gwasanaethau.

- Cryfhau ymhellach gyfraniad Addysg mewn prosesau diogelu statudol a sicrhau trefniadau dirprwyo clir pan fo angen.
- Gwreiddio presenoldeb rheolaidd uwch swyddogion Addysg yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant, a chynrychiolaeth y Gwasanaethau Plant yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli Addysg.
- Cefnogi'r swyddi a'r adnoddau newydd i ymsefydlu, gan egluro eu rolau, trefniadau atebolrwydd a'r canlyniadau disgwyliedig.
- Parhau i ddatblygu'r cydweithio rhwng yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant, gan sicrhau cyfraniad dwyffordd cyson at benderfyniadau strategol y ddau wasanaeth.

Casgliad

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion, yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant. Mae'r gwelliannau wedi'u seilio ar berthnasoedd cryfach, cyfathrebu mwy effeithiol, rhannu gwybodaeth yn fwy amserol a mwy o gyfraniad Addysg i brosesau diogelu a llesiant.

Mae'r trefniadau newydd ar lefel uwch-reoli yn cynnig cyfle i symud y cydweithio ymlaen ymhellach, drwy sicrhau bod safbwyntiau Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn cyfrannu'n gyson at benderfyniadau strategol y naill wasanaeth a'r llall. Bydd cynrychiolaeth mewn fforymau penaethiaid hefyd yn cryfhau'r cysylltiad uniongyrchol rhwng ysgolion a'r Gwasanaethau Plant.

Mae'r cyfraniad ar y cyd i Strategaeth y Drws Cywir, ynghyd â'r swyddi a'r adnoddau newydd, yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer darparu cymorth mwy integredig, rhoi llais plant a phobl ifanc wrth wraidd datblygiadau.

Mae'r trefniadau yn galluogi ysgolion i geisio cyngor yn gynharach, yn cryfhau'r wybodaeth sydd ar gael wrth asesu risg ac anghenion, ac yn cefnogi ymatebion mwy cydlynol i blant a theuluoedd. Mae'r dystiolaeth weithredol yn dangos bod y newid hwn yn gwella arferion proffesiynol ac yn cynyddu'r cyfle i blant a theuluoedd dderbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Y cam nesaf yw gwreiddio'r datblygiadau hyn a chryfhau'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol o'u heffaith.

Goruchwyliaeth Allanol i Bersonau Dynodedig Diogelu a'u Dirprwyon

Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant

Beth yw'r argymhelliad?

Sicrhau bod Personau Dynodedig Diogelu ysgolion a'u dirprwyon yn gallu cael mynediad at oruchwyliaeth allanol gan weithiwr cymdeithasol cymwys, annibynnol ac allanol, pan fo angen yn codi.

Cefndir

Mae Personau Dynodedig Diogelu a'u dirprwyon yn cyflawni rôl allweddol wrth sicrhau bod ysgolion yn ymateb yn briodol ac yn amserol i bryderon ynghylch diogelwch a lles plant. Gall y rôl gynnwys ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth, gwneud penderfyniadau proffesiynol, cydlynu â gwasanaethau statudol a chefnogi aelodau eraill o staff.

Mae arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth weithredol eisoes ar gael drwy'r Tîm Diogelu ac Ansawdd Llesiant a thrwy gysylltiadau â'r Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, cydnabyddir bod goruchwyliaeth allanol yn cynnig math gwahanol o gefnogaeth broffesiynol. Gall ddarparu lle cyfrinachol a strwythuredig i'r Person Dynodedig Diogelu neu ei ddirprwy:

- fyfyrio ar arfer;
- trafod effaith achosion cymhleth;
- ystyried prosesau gwneud penderfyniadau;
- adnabod anghenion datblygu proffesiynol;
- ystyried ei lesiant ei hun yng nghyd-destun y rôl;
- cadarnhau pa gamau pellach sydd eu hangen.

Nid bwriad y trefniant yw disodli gweithdrefnau diogelu, cyngor rheoli achosion, trefniadau uwchgyfeirio na chyfrifoldebau'r ysgol. Ei ddiben yw ychwanegu haen annibynnol o fyfyrio, her broffesiynol a chefnogaeth i'r rhai sy'n cyflawni'r rôl ddynodedig.

Beth sydd wedi'i ddatblygu?

Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn bwriadu comisiynu unigolyn cymwys ac allanol i fod ar gael i ddarparu goruchwyliaeth pan fydd angen yn codi.

Bwriedir i'r Awdurdod ddod i gytundeb â gweithiwr cymdeithasol annibynnol sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r ddealltwriaeth berthnasol o arferion diogelu plant. Bydd y darparwr yn gallu cynnal sesiynau goruchwyliaeth broffesiynol gyda Phersonau Dynodedig Diogelu a'u dirprwyon mewn ysgolion.

Bydd defnyddio darparwr allanol yn helpu i sicrhau:

- annibyniaeth y broses;
- cyfrinachedd priodol;
- her a myfyrio proffesiynol gwrthrychol;
- cefnogaeth gan unigolyn sydd â chymhwyster a phrofiad perthnasol;
- lle diogel i drafod effaith emosiynol a phroffesiynol y rôl;
- cysondeb o ran diben a safon y sesiynau.

Bydd y trefniant yn gweithredu yn ôl yr angen, yn hytrach nag fel rhaglen orfodol reolaidd i bob swyddog. Bydd hyn yn galluogi'r ddarpariaeth i ymateb yn gymesur i amgylchiadau unigol, cymhlethdod achosion a gofynion y rôl.

Sut bydd y trefniant yn gweithredu?

Cyn gweithredu'r ddarpariaeth, bydd yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn cytuno ar fframwaith gweithredu clir gyda'r gweithiwr cymdeithasol annibynnol.

Bydd y fframwaith yn nodi:

- diben y sesiynau goruchwyliaeth;
- pwy sy'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth;
- sut i wneud cais am sesiwn;
- sut y bydd sesiynau'n cael eu trefnu;
- disgwyliadau o ran cyfrinachedd;
- terfynau cyfrinachedd a'r amgylchiadau lle bydd angen rhannu gwybodaeth;
- trefniadau diogelu data a chadw cofnodion;
- y gwahaniaeth rhwng goruchwyliaeth broffesiynol a chyngor brys ar achos;
- llwybrau uwchgyfeirio pan fydd mater diogelu gweithredol yn codi;
- y trefniadau ar gyfer monitro defnydd ac ansawdd y gwasanaeth;
- y trefniadau ariannol.

Bydd ysgolion yn cael manylion cyswllt y darparwr, ynghyd ag eglurhad clir o ddiben y gwasanaeth a'r broses ar gyfer cael mynediad ato. Bydd yr wybodaeth hefyd yn egluro na ddylid defnyddio sesiwn oruchwyliaeth yn lle gwneud cyfeiriad diogelu, ceisio cyngor ar achos brys neu ddilyn trefniadau uwchgyfeirio presennol.

Trefniadau ariannol

Bwriedir i'r gweithiwr cymdeithasol annibynnol gysylltu â'r Awdurdod er mwyn prosesu taliadau yn unol â nifer a hyd y sesiynau a gynhaliwyd.

Bydd angen cytuno ymlaen llaw ar:

- gyfradd y sesiwn;
- hyd arferol sesiwn;
- trefniadau ar gyfer canslo neu aildrefnu;
- yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn awdurdodi taliad;
- y gwasanaeth neu'r gyllideb sy'n gyfrifol am y gost;
- trefniadau anfonebu a chymeradwyo taliadau.

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, dim ond yr wybodaeth leiaf angenrheidiol at ddibenion gweinyddol a thalu y dylid ei darparu. Ni ddylai anfonebau gynnwys manylion plant, teuluoedd nac unrhyw gynnwys cyfrinachol a drafodwyd yn ystod sesiwn.

Cyfrinachedd a ffiniau'r gwasanaeth

Bydd cyfrinachedd yn egwyddor ganolog i'r trefniant. Dylai'r unigolyn sy'n derbyn goruchwyliaeth allu trafod ei arfer yn agored, gan wybod bod y sesiwn yn cael ei chynnal mewn amgylchedd proffesiynol ac annibynnol.

Fodd bynnag, bydd angen egluro nad yw cyfrinachedd yn absoliwt. Os bydd gwybodaeth a rennir yn awgrymu bod plentyn neu unigolyn arall mewn perygl, bod pryder difrifol am arfer proffesiynol, neu

fod rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddiogelu arall yn berthnasol, bydd disgwyl i'r darparwr weithredu yn unol â'r protocol cytunedig.

Dylai'r protocol hefyd sicrhau:

- nad oes gwybodaeth bersonol ddiangen yn cael ei chofnodi;
- bod unrhyw gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel;
- bod hyd y cyfnod cadw yn glir;
- bod yr unigolyn sy'n derbyn goruchwyliaeth yn deall pa wybodaeth a gofnodir;
- bod unrhyw gam gweithredu neu bryder sydd angen ei uwchgyfeirio yn cael ei gyfleu'n glir.

Yr effaith ddisgwyliedig

Disgwylir i'r trefniant ddarparu nifer o fanteision i ysgolion a Phersonau Dynodedig Diogelu.

Effaith ar unigolion

Bydd y ddarpariaeth yn:

- darparu mynediad amserol at gefnogaeth allanol gymwys;
- cynnig lle diogel ar gyfer myfyrio ar achosion ac arferion;
- helpu unigolion i reoli effaith emosiynol cyfrifoldebau diogelu;
- cynyddu hyder wrth wneud penderfyniadau proffesiynol;
- helpu i adnabod anghenion hyfforddi neu ddatblygu;
- lleihau'r risg o ynysu proffesiynol.

Effaith ar arferion ysgolion

Bydd y trefniant yn:

- cryfhau ansawdd a chysondeb arferion diogelu;
- cefnogi diwylliant o fyfyrio, dysgu a gwella;
- cynnig her broffesiynol annibynnol;
- helpu ysgolion i adnabod materion systemig neu fylchau mewn trefniadau;
- ategu'r cyngor a'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael;
- rhoi sicrwydd ychwanegol i arweinwyr a llywodraethwyr bod llesiant a datblygiad proffesiynol y rhai sy'n arwain ar ddiogelu yn cael sylw priodol.

Effaith ar blant a phobl ifanc

Drwy gefnogi'r rhai sy'n cyflawni'r rôl ddynodedig, disgwylir i'r trefniant gyfrannu at:

- ymatebion mwy cyson i bryderon;
- penderfyniadau mwy gwybodus;
- adnabod risgiau'n gynharach;
- arferion sy'n parhau i ganolbwyntio ar brofiad ac anghenion y plentyn;
- cydweithio mwy effeithiol rhwng ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant.

Mesur a gwerthuso'r ddarpariaeth

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniant, cynigir casglu gwybodaeth gyfyngedig a dienw ynghylch:

- nifer y sesiynau a gynhelir;
- nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth;
- amseroldeb mynediad at sesiwn;
- adborth dienw gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth;

- themâu cyffredinol sy'n codi, heb gynnwys manylion achosion nac unigolion;
- unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu systemig;
- effaith ganfyddedig y sesiynau ar hyder, llesiant ac arfer proffesiynol.

Ni ddylai'r trefniadau gwerthuso gyfaddawdu cyfrinachedd na chynnwys manylion plant, teuluoedd, aelodau staff neu achosion unigol.

Camau nesaf

1. Adnabod gweithiwr cymdeithasol cymwys, profiadol ac annibynnol i ddarparu'r sesiynau.
2. Cwblhau'r gwiriadau cymhwysedd, cofrestru, yswiriant a diogelu perthnasol cyn dechrau'r trefniant.
3. Cytuno ar gytundeb comisiynu sy'n nodi cwmpas y gwaith, cyfrifoldebau'r darparwr a'r trefniadau ariannol.
4. Datblygu protocol goruchwyliaeth sy'n egluro diben y sesiynau, cyfrinachedd, cadw cofnodion, diogelu data a'r llwybrau uwchgyfeirio.
5. Cytuno ar broses syml a chyfrinachol i Bersonau Dynodedig Diogelu a'u dirprwyon wneud cais am sesiwn.
6. Rhannu manylion cyswllt, diben y gwasanaeth a'r trefniadau mynediad gydag ysgolion.
7. Egluro'r gwahaniaeth rhwng goruchwyliaeth, cyngor gweithredol ar achosion a'r angen i wneud cyfeiriad neu uwchgyfeirio pryder.
8. Sefydlu trefniadau talu yn seiliedig ar y sesiynau a gynhelir, heb ddatgelu cynnwys cyfrinachol.
9. Adolygu'r trefniant ar ôl cyfnod gweithredu cychwynnol er mwyn ystyried defnydd, hygyrchedd, ansawdd ac effaith.

Casgliad

Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaethau Plant wedi cytuno mewn egwyddor i ddatblygu trefniant comisiynu ar gyfer darparu goruchwyliaeth allanol i Bersonau Dynodedig Diogelu a'u dirprwyon.

Bydd y trefniant yn darparu mynediad at weithiwr cymdeithasol cymwys ac annibynnol pan fo'r angen yn codi. Bydd hyn yn cynnig haen ychwanegol o fyfyrio, her a chefnogaeth broffesiynol, gan ategu'r trefniadau presennol sydd ar gael drwy ysgolion, Addysg a'r Gwasanaethau Plant.

Bydd gweithredu'r trefniant drwy gytundeb ffurfiol, protocol cyfrinachedd clir a phroses mynediad syml yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn annibynnol, yn ddiogel ac yn hygyrch. Disgwylir i hyn gryfhau llesiant a hyder y rhai sy'n arwain ar ddiogelu, gwella ansawdd arferion ysgolion a chyfrannu at ymatebion mwy cyson ac effeithiol i anghenion plant a phobl ifanc.

Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr

Rhif	Cyf Tasg	Thema	Argymhelliad / Amcan	Gweithred	A all CG weithredu:	Perthnasol i:	Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd	Amserlen	RAG	Tasg / Yn Parhau	Mesur	Adnoddau	Beth sydd eisoes wedi newid?	Beth sydd dal angen ei wneud?
1		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant sicrhau bod eu polisïau mewn perthynas â gwrando ar lais y plentyn yn cael eu hadolygu, eu gweithredu'n llawn ac yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad hwn Gweler hefyd fod adroddiad diweddar (Tachwedd 2025) Estyn / AGC wedi nodi argymhelliad Sefydlu polisi corfforaethol ar lais y plentyn ac unioni trefniadau gwrando ar lais y plentyn dan Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ar draws adrannau addysg a phlant a theuluoedd; defnyddio negeseuon o fforymau plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n uniongyrchol ar gynllunio strategol	Bydd y Cyngor yn datblygu polisi ar wrando ar lais y plentyn a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol.	Ie	Pob sefydliad	Gwern Ap Rhisiart	Hyd-26		Tasg	OES	OES	Mae drafft cyntaf o'r strategaeth wedi ei gynhyrchu fydd yn sylfaen i drafodaeth efo ein Fforwm Plant a Phobl Ifanc wrth symud ymlaen. Mae angen dau beth mewn gwirionedd, strategaeth glir sydd yn cyfarch yr holl ofynion ac yn ymateb i'r gofynion statudol ynghyd a rhywbeth syml a chlir fydd yn arwydd o'n ymrwymiad clir i sicrhau llais y plentyn yn ein gwaith bob dydd. Cyflwynwyd y drafft hwn i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2026. Yr ydym wedi symud o ddefnyddio'r gair polisi i ddefnyddio y gair strategaeth. Mae 5 rhan i'r strategaeth. Penawdau: Llais Plant a Phobl Ifanc yn y drefn ddiogelu Llais Plant a Phobl Ifanc mewn addysg Llais Plant a Phobl Ifanc ar draws Gwasanaethau'r Cyngor Dylanwad ar Brosesau Corfforaethol Effaith Mae'r Strategaeth wedi ei chwblhau bellach ac mae'r atodiadau drafft canlynol hefyd yn eu lle: Llais y Plentyn mewn Gwasanaethau Plant Llais y Dysgwr mewn Addysg Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc Integreiddio a Llywodraethu Strategol Llais y Plentyn Cafwyd cyfarfod i fynd drwy'r Strategaeth gyda Fforwm Plant a Pobl Ifanc Gwynedd. Mae eu holl sylwadau wedi ymgorffori yn y fersiwn terfynol (Diwrnod Llawn 16 Gorffennaf). Erbyn y cyfarfod Bwrdd bydd y Strategaeth wedi mynd gerbron y Cabinet a'r gobaith yw y bydd yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.	Bydd angen monitro parhaus i sicrhau ein bod yn cadw at y Strategaeth. Mae'r atodiadau yn y Strategaeth yn manylu ar sut y byddwn yn mesur yr effaith hwn ar draws y Cyngor.
2		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Rhaid i sefydliadau allu dangos tystiolaeth i'w Bwrdd a'u Rheoleiddiwr proffesiynol bod ganddynt broses ar gyfer gwrando ar blant a'i bod wedi'i gweithredu ac yn weithredol yn y sefydliad	Bydd angen i Gyngor Gwynedd sefydlu a thystiolaethu systemau ar gyfer gwrando ar blant, gyda mesurau clir yn eu lle ac adrodd rheolaidd i'r byrddau a'r rheoleiddwyr proffesiynol perthnasol.	Ie	Pob sefydliad / Rheoleiddwyr	Gwern ap Rhisiart / Dylan Owen	Parhaus		Yn parhau	OES	OES	Bydd y mesurau yn cael eu datblygu ar y cyd â Strategaeth Llais y Plentyn (atodiad: Integreiddio a Llywodraethu Strategol Llais y Plentyn) a Fframwaith Sicrhau Ansawdd Adran y Plant. Mae'r rhain bellach mewn lle.	Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r rheoleiddwyr perthnasol i sicrhau bod y mesurau y cytunwyd arnynt yn cael eu hymgorffori yn eu trefniadau adrodd, monitro a sicrhau ansawdd.
5		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud gan drydydd parti dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid i swyddog o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant siarad â'r plentyn sy'n cael ei enwi yn yr atgyfeiriad, hyd yn oed pan nad yw wedi datgelu unrhyw beth ei hun. Gweler hefyd fod adroddiad diweddar (Tachwedd 2025) Estyn / AGC wedi nodi argymhelliad tebyg iawn sef fod angen: ymgysylltu â'r plentyn pan fo'n datgan risg o niwed/cam-drin/esgeuluso		Ie	Pob Awdurdod Lleol	Dylan Owen / Sharron Carter	Parhaus		Tasg	OES	Bid corfforaethol wedi ei gymeradwyo	Mae'r drefn bellach yn weithredol ar gyfer honiadau Adran 5. Fodd bynnag, codwyd rhai heriau wedi codi. Teimla rhai rhieni yn anghyfforddus iawn gyda gweithiwr cymdeithasol yn siarad â'u plentyn ac, o ganlyniad, yn gwrthod caniatâd. Cofnodir cwynion o'r fath a calff hyn ei fonitro'n barhaus. Mae rhai awdurdodau lleol eraill hefyd wedi gwthio yn ôl pan fo'r plentyn yn byw mewn sir cyfagos. Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi'u cynnal gydag arbenigwr cyfreithiol er mwyn adolygu hawliau rhieni a phlant yn unol â gweithdrefnau diogelu. Erbyn hyn cedwir olwg ar y niferoedd sy'n gwrthod drwy drefniadau Herio Perfformiad yr Adran Plant.	Wedi cwblhau - Monitro drwy herio perfformiad
4		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Mewn ysgolion, rhaid i'r newidiadau hyn gael eu cofnodi ar system reoli data electronig	Cofnodi unrhyw newidiadau ymddygiadau a allai fod yn arwydd o feithrin perthynas amhriodol ar system reoli data electronig	Ie	Ysgolion	Gwern ap Rhisiart	Medi-26		Yn parhau		Mae'r system wedi'i brynu o gyllideb oedd gennym yn barod.	Mae **pob ysgol** bellach mewn sefyllfa i gofnodi newidiadau mewn ymddygiad, pryderon neu wybodaeth berthnasol yn ddigidol, naill ai drwy Bromcom neu drwy systemau presennol megis MyConcern. Mae'n bwysig nodi bod mwyafrif yr ysgolion yn parhau i ddefnyddio MyConcern ar hyn o bryd, ond nad oes bellach unrhyw ysgol heb fynediad at system electronig addas. Mae hyn yn rhoi sail fwy cyson i waith cofnodi ac yn lleihau'r risg o ddibynnu ar drefniadau papur neu brosesau anghyson.	Parhau i hyfforddi ysgolion yn y defnydd o system Bromcom i gofnodi newid mewn ymddygiad plant. Bydd ysgolion uwchradd yn cael eu blaenoriaethu i drosglwyddo i Bromcom.
6		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Dylai ALl1 ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol	Dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Yna dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol.	Ie	Cyngor Gwynedd	Gwern ap Rhisiart	Gorff-26		Tasg	OES		Rydym wedi datblygu Tîm Diogelu a Llesiant Addysg sy'n cynnwys 4 aelod staff, yn hytrach nag enwi un swyddog unigol. Mae'r dull yma yn sicrhau nad yw mynediad plentyn at gymorth yn dibynnu ar argaeledd un person. Cyflwyniad wedi bod i benaethiaid ac fel rhan o hyn bu i ni ategu'r angen i sicrhau fod yna fanylion cyswllt i bobl allanol ar gael mewn lleoliadau hwylus i blant. Ymateb cychwynol wedi ei dderbyn gan dros 1000 o bobl ifanc, holiadur wedi ei lunio gan y Fforwm oedd hwn. Mae dros 14% ddim yn hyderus i siarad efo rywun os yn bryderus am rywbeth, mae hyn yn uchel ac yn groes i'r hyn y byddem yn ei weld yn arferol mewn holiaduron ar lefel ysgol neu awdurdod. Yn anffodus nid oedd yr holiadur yn gofyn pam eu bod yn teimlo fel hyn, y bobl ifanc oedd wedi llunio'r holidur. Mae'r ymchwiliad craffu i ddiogelu mewn ysgolion hefyd wedi argymell bod manylion y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg. y Tîm Derbyn Cyfeiriadau a'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael eu harddangos yn glir mewn deunyddiau hyfforddi. Mae hyn wedi digwydd. Mae posteri gyda manylion cyswllt y tîm Diogelu a Llesiant yn cael ei arddangos ym mhob un ysgol. Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant Addysg yn cynnal ymweliad blynyddol gyda phob ysgol i wirio fod y trefniadau priodol i gyd mewn lle a bod pawb yn eu deall. Mae canlyniadau yr ymweliadau hyn yn cydfynd gyda chanfyddiadau yr ymchwiliad craffu diogelu ysgolion diweddar, sef bod plant yn gallu adnabod oedolion dibynadwy i siarad â nhw, ffynonellau cymorth yn yr ysgol, a ffynonellau allanol. Mae pecyn o bosteri wedi'i ddarparu i ysgolion er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, a bydd y Tîm yn parhau i fonitro a hyrwyddo'r defnydd effeithiol ohonynt fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Bwriedir i hyn gryfhau ymhellach ymwybyddiaeth disgyblion o'r ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt, o fewn a thu allan i'r ysgol, a chynyddu eu hyder i geisio cymorth pan fo angen.	Byddwn yn edrych yn fanylach ar argymhellion yr Ymchwiliad Pwyllgor Craffu rŵan ei fod wedi ei gwblhau.
8		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Dylai Awdurdodau Lleol ddangos tystiolaeth o sut maent yn cefnogi ac yn eiriol dros ddioddefwyr trawma, fesul achos, pan fo'u gallu i gael addysg wedi cael ei gyfyngu oherwydd eu profiadau. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at addysg bellach ac uwch, a'r arian sydd ei angen i wneud hynny, pan nad yw'r gofynion o ran graddau a phresenoldeb wedi'u bodloni oherwydd y trawma a gawsant	Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cefnogaeth i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn.	Ie	Pob Awdurdod Lleol	Gwern ap Rhisiart	Yn parhau		Yn parhau	OES	Oes	Ymddiheuriad a chynnig o gyfarfod wedi ei roi i bob un. Cynigir gefnogaeth drwy bartneriaid yn uniongyrchol, gyda cheisiadau am therapi arbenigol hefyd wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor. Llythyr wedi mynd allan i'r bechgyn a oedd yn ddioddefwyr. Sgyrsiau bellach wedi digwydd ar lefel unigol gyda'r ISWA's er mwyn teilwra pecynnau cefnogaeth "bespoke". Yn ogystal mae cysylltiad un i un gyda rhai o'r dioddefwyr yn cymryd lle, unai wyneb yn wyneb neu dros Teams yn seiliedig ar dymuniadau'r unigolyn, eto er mwyn trafod anghenion ar lefel unigol a teuluol. Un o'r heriau mwyaf ydy adnabod gwasanaethau / ymyraethau arbenigol ar gyfer dioddefwyr ym maes therapiwtig yn yr ardal. Mae cytundeb i fapio argaeledd gwasanaethau therapiwtig lleol / draws yr rhanbarth.	Parhau gyfarfodydd gyda eiriolwyr y dioddefwyr, gyda trafodaethau parhaus am y lefel gefnogaeth sydd ar gael, neu eu angen, hynny yn cynnwys anghenion y teulu yn ogystal a'r unigolyn.
9		**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**	Ymdrin â cheisiadau am iawndal - Datrys achosion sy'n weddill yn amserol	Prosesu hawliadau am iawndal a datrys achosion sy'n parhau yn brydlon.	Ie	Cyngor Gwynedd	Nia Grisdale	Yn parhau		Yn parhau			Mae unrhyw hawliadau neu faterion a dderbynnir bellach yn cael eu trin gan gyfreithwyr arbenigol ac yswirwyr y Cyngor, a fydd yn gwaethio tuag at eu datrys mewn modd amserol gyda chefnogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor.	Parhau i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith gyda'r cyfreithwyr er mwyn galluprosesu hawliadau a gwneud taliadau mewn modd amserol.
33		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Bod Byrddau Diogelu yn cael sicrwydd bod swyddogion LADO eu hardaloedd yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn rheolaidd		Na	Bwrdd Diogelu Rhanbarthol	Dylan Owen / Sharron Carter	I'w gadarnhau		Yn parhau			Mae'r Bwrdd Diogelu yn cynnal rhwydweithiau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ymarfer a gweithdrefnau Rhan 5. Mae swyddo-gion y Cyngor yn mynychu ac yn cyfrannu at y rhain er mwyn cefnogi gweithiant parhaus mewn ymarfer a phroseau.	
36		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn crafflu lefelau'r hyfforddiant diogelu a VAWDASV ym mhob Adran ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol yn chwarterol;	Grŵp Gweithredol Diogelu yn crafflu lefelau'r hyfforddiant diogelu a VAWDASV ym mhob Adran ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol yn chwarterol;	Ie	Cyngor Gwynedd	Ian Jones/Dylan Owen	Yn parhau		Yn parhau	Oes	Ariannwyd y rôl Hyrwyddwr Diogelu drwy fid corfforaethol.	Mae sgôp sylweddol i gynyddu nifer y staff Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a VAWDASV. Sefydlwyd y rôl Hyrwyddwr Diogelu ym mis Medi 2025, gyda'r unigolyn a benodwyd yn dechrau yn y swydd yn gynnar ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Hyrwyddwr Diogelu hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Panel Diogelu a'r Grŵp Gweithredol. Mae ystadegau hyfforddiant diogelu wedi'u cynnwys yn adroddiadau Herio Perfformiad pob adran o fis Medi 2025 ymlaen. Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu hyrwyddo'r hyfforddiant diogelu, ac mae trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau y gall staff sydd heb fynediad i gyfrifiaduron gwaith fynychu sesiynau hyfforddi wyneb-yn-wyneb. Mae holl athrawon a chymorthyddion dosbarth yn derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn flynyddol yn eu hysgolion Mae staff Gwasanaethau Plant yn derbyn hyfforddiant Diogelu lefel uwch Mae trefniadau mewn lle i fonitro'r ddau uchod yn barhaus O ran gweddill staff y Cyngor mae **82% wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Ar 7 o Hydref 2026**, roedd 3,798 yma wedi cwblhau yr hyfforddiant a 838 heb. Mae mwyafrif y staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant yn gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen megis gwastraff, priffyrdd, gwasanaethau stryd, arlwyo a glanhau, ac mae gwaith penodol ar y gweill i sicrhau bod y staff hyn yn cwblhau'r hyfforddiant. Un o'r rhwystrau a adnabuwyd oedd sicrhau mynediad bwylus at yr hyfforddiant i staff nad ydynt yn defnyddio cyfrifiadur fel rhan arferol o'u gwaith. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi dathlygu fersiwn fideo o'r hyfforddiant, sy'n galluogi'r hyfforddiant i gael ei ddarparu mewn ffordd fwy hygrych i'r gwpiau hyn ac mae bellach mewn defnydd	Mae'r Hyrwyddwr Diogelu wedi bod yn ei rôl ers bbwddyn ac yn cadeirio is-grŵp hyrwyddo sy'n cyfarfod yn rheolaidd i yrru'r agenda yn ei blaen. Mae lefelau hyfforddiant yn cael eu monitro'n gyson ar lefel adrannol, drwy herio perfformiad ac adrodd drwy'r Panel Diogelu a'r Grŵp Diogelu, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a nodi unrhyw feysydd sydd angen sylw.
37		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Cefnogaeth a chyngor i ysgolion ar drefniadau diogelu: Adolygiad parhaus o becyn hyfforddiant diogelu ysgolion		Ie	Cyngor Gwynedd	Gwern ap Rhisiart	Cwblhawyd		Yn parhau		Mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall y tîm ymweld â'r holl ysgolion. Mae hyn wedi'i ddarparu drwy grant LIC.	Mae Pecyn Hyfforddiant Ysgolion wedi'i ddiweddaru. Mae hyn yn rhywbeth a arferai ddigwydd ond mae rhan benodol o'r pecyn sydd wedi'i rhyfhwyno eleni wedi bod ar "feithrin perthnasoedd amhriodol" ar gais ysgolion (gweler Rhif 30). Mae'r grŵp o Unigolion Dynodedig ar lefel Awdurdodau Gogledd Cymru wedi'i sefydlu. Mae pecynnau hyfforddiant ar yr agenda. Mae'r cwricwlwm i ysgolion wedi'i safoni ac yn unol â disgwyliadau cenedlaethol. Mae trefniadau hunan-arfarnu a monitro yn eu lle. Cynhelir ymweliadau blynyddol gan y tîm Diogelu a Llesiant. Rydym yn dymuno gwella'r broses hunan-arfarnu a gwbiheir gan ysgolion. Bydd hyn yn rhoi gwell syniad i ni o'r materion y mae angen i ni roi sylw iddynt a'n helpu ni i fesur effaith. Rydym yn bwriadu cryfhau'r ffordd y mae ysgolion yn arfarnu diogelu a defnyddio'r wybodaeth hon i roi gwell syniad i ni o effaith ein gwaith i'w cefnogi nhw. Fel rhan o gynllun ymateb yr adran i adroddiad Estyn yr ydym yn ystyried y ffordd mae ysgolion yn arfarnu eu gwaith yn maes diogelu. Fe fydd golyn ychwanegol ar ysgolion i arfarnu yn flawer mwy manwl gyda ffocws ar effaith. Cyfarfod busnes wedi codi cwr y lien ar hyn ac wedi amlygu pwysigrwydd diwylliant o ddiogleu mewn ysgolion.	Adolygiad parhaus o becyn hyfforddiant diogelu ysgolion
40		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Adolygiad cyfnodol o Bolisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Gwynedd		Ie	Cyngor Gwynedd	Dylan Owen	Parhaus (bob dwy flynedd)		Yn parhau	Na	Na	Adolygwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn ail hanner 2023 a'i fabwysiadu gan y Cabinet ym mis Chwefror 2024, gyda chymeradwyaeth y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2024. Mae'r Polisi yn ddarostyngedig i adolygiad parhaus bob dwy flynedd. Mae is-grŵp wedi cyfarfod yn ystod lonawr a Chwefror 2026, gyda Pholisi drafft eisoes yn ei le. Cyflwynwyd y Polisi i'r cyfarfod Cabinet yn mis Gorffennaf 2026 er mwyn ei fabwysiadu yn ffurfiol. Cyflwynwyd fel eitem er gwybodaeth i'r Cyngor Llawn yn mis Hydref 2026. Byddwn yn parhau i adolygu'r Polisi pob dwy flynedd.	Bydd gwaith pellach yn ystod y misoedd nesaf er mwyn ei hwyrddo.
41		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Adolygiad cyfnodol o Bolisi Diogelu Ysgolion ac adolygu gweithdrefnau i amlygu lle mae ysgolion unigol wedi addasu'n sylweddol gynnwys y polisiau enghreifftiol		Ie	Cyngor Gwynedd	Gwern ap Rhisiart	Parhaus - blynyddol		Yn parhau	Na	Mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall y tîm ymweld â'r holl ysgolion. Mae hyn wedi'i ddarparu drwy grant LIC.	Rydym yn adolygu'r polisi bob blwydd yn ystod yr haf. Rydym bellach yn adolygu'r polisi'n barhaus a byddwn yn diweddaru ysgolion ar unrhyw newid o fewn y flwyddyn. Rydym hefyd yn parhau i edrych ar arferion da ledled Cymru yn nhermau polisi. Mae Swyddog ychwanegol wedi cychwyn yn y Tîm Diogelu a Llesiant ac y Iaf o Chwefror.	Adolygiad blynyddol a monitro yn digwydd
42		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**	Archwiliad mewnol o **ymwybyddiaeth gweithlu Cyngor Gwynedd o drefniadau diogelu;**		Ie	Cyngor Gwynedd	Dylan Owen	Mehefin 2026		Yn parhau	Oes		Archwiliad mewnol wedi'i gwblhau **Mehefin 2025** a'i adrodd i'r Panel Strategol Diogelu. Bwriedir aliadrodd yr archwiliad hwn yn flynyddol. Yn dilyn awgrym yr archwiliad penodwyd Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i godi ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r gweithdrefnau a hyrwyddo'r hyfforddiant. Cyflwynwyd adroddiad llawn yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Ymateb (15/09/25)	Bwriedir cynnal archwiliad mewnol pellach (Hydref 2026)

43		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisiau**	Grŵp Gweithredol Diogelu yn craffu canrannau'r gweithlu ym mhob Adran o fewn y Cyngor **sydd â DBS cyfredol,** lle bod hynny'n angenrheidiol ac adrodd i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol yn chwarterol.	Monitro cydymffurfiaeth DBS adrannol ac adrodd yn chwarterol i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol.	Ie	Cyngor Gwynedd	Dylan Owen	Cwblhawyd - monitro parhaus		Yn parhau	Oes		Mae cyfraddau cydymffurfiaeth DBS ar draws yr holl adrannau yn uchel iawn. Mae'r rhan fwyaf ar 100%, gydag ychydig ar tua 99.5% (fel arfer oherwydd bod staff ar gyfnod mamolaeth neu abenoldeb hirdymor). Mae'r ystadegau hyn wedi eu hymgorffori i fesurau perfformiad y Bwrdd Ymateb. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd fel eitem agenda rheolaidd yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Diogelu, ac mae arweinydd diogelu dynodedig pob adran yn gyfrifol am olrhain eu ffigyrau eu hunain.	Monitro yn digwydd yn gyson drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu
44		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisiau**	Ymweliadau i fonitro a chefnogi trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion unigol yn flynyddol	Ymweliadau i fonitro a chefnogi trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion unigol yn flynyddol	Ie	Cyngor Gwynedd	Gwern ap Rhisiart	Cwblhawyd - Parhaus		Yn parhau	OES	Mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall y tîm ymweld â'r holl ysgolion. Mae hyn wedi'i ddarparu drwy grant LIC.	Mae pob ysgol wedi derbyn Ymweliad Monitro o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, a bydd amserlen ymweld flynyddol yn ei lle o fis Ionawr 2025 ymlaen. O'r 45 ysgol sydd wedi derbyn ymweliad hyd ar fis Gorffennaf, roedd 43 yn bodloni'r gofynion diogelu'n dda neu'n well. Roedd dwy ysgol angen ail ymweliad neu gefnogaeth ychwanegol i fynd i'r afael â materion penodol megis cofnodi presenoldeb/absenoldeb ac arddangos posteri diogelu. Mae'r ddwy ysgol bellach yn derbyn ymweliadau cefnogol rheolaidd i sicrhau bod gweithredoedd yn cael eu gweithredu. Adroddwyd ar ddiweddariad yng nghyfarfod y Bwrdd Ymateb ar 20/10/2025. Gweithdrefn fonitro flynyddol yn ei lle. Mater parhaus a fydd yn cael sylw yn y mesurau a gyflwynir i'r Bwrdd Ymateb a chyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Addysg.	Ar drac i ymweld a pob ysgol o fewn y flwyddyn.
45		**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisiau**	Ymchwiliad Craffu i drefniadau diogelu		Ie	Cyngor Gwynedd	Swyddog Craffu neu gynrychiolydd o'r Ymchwiliad Craffu - yn ôros am gadarnhad	Rhaglyr 2025		Tasg		Oes - darparwr allanol i ymgymryd ag ymchwil ar lais y plentyn	Mae ymchwiliad Craffu i drefniadau diogelu o fewn ysgolion Gwynedd ar waith. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar 30/06/2025. Mae oedi wedi bod yn sgil yr angen am gomisiynu ymchwilydd allannol i ymgymryd a rhan o'r gwaith. Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi yn mis Gorffennaf.	

Thema 4 - Llywodraethu Ysgolion

Rhif	Cyf Tasg	Thema	Argymhelliad / Amcan	A all CG weithredu:	Perthnasol i:	Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd	Amserlen	RAG	Tasg / Yn Parhau	Mesur	Adnoddau	Beth sydd eisoes wedi newid?	Beth sydd dal angen ei wneud?
46		**Thema 4 - Llywodraethu Ysgolion**	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion Iedled Cymru, sy'n:** Amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau Llywodraethwyr er mwyn newid o ganolbwyntio'n bennaf ar reolaeth ariannol a deilliannau i sefyllfa lle derbynnir mai diogelu, iechyd a lles yw'r syffaen briodol ar gyfer dysgu a ffynnu	Ie	Llywodraeth Cymru	Alison Halliday	Bydd hyn yn cymryd rhwng 6 a 9 mis yn ôl LIC. Mae Rhaglen Llywodraethwyr Gwynedd wedi ei ddatblygu ac yn cael ei weithredu yn barhaus.					Mae'r Adran Addysg wedi cynnig sylwadau'n ffurfiol i'r adolygiad Llywodraethu. Bydd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd ar yr 8fed o Orffennaf er mwyn cywain barn a mewnbwn am heriau llywodraethu ysgolion llai a gwledig. Mae'r Swyddog Cefnogi Llywodraethiant bellach wedi cychwyn yn ei rôl ac wedi ymgyfarwyddo efo'i dyletswyddau newydd yn llwyddiannus. Mae'r swyddog wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion cyfefyb yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ogystal a mynd ati i lunio holiadur i ganfod barn cyrff llywodraethol am eu hyder wrth arddel eu rôl fel cyfaill beirniadol ac anghenion hyfforddiant pellach. Datblygodd yr Adran Addysg agenda / rhaglen benodol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd, sydd yn canolbwyntio ar faterion diogelu a lles, ynghyd â darparu'r data priodol i'w helpu i asesu sefyllfa'r ysgolion (e.e. nifer y gwaharddiadau). Mae wedi ei readru efo cyrff llywodraethu.	Mae'r Cyngor wedi codi ei bryderon ynghylch y gweithdrefnau presennol gyda Llywodraeth Cymru ac wedi galw am adolygiad o'r trefniadau, gan dynnu sylw at yr heriau a'r diffygion a nodwyd yn ystod eu gweithrediad.
47		**Thema 4 - Llywodraethu Ysgolion**	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion Iedled Cymru, sy'n:** Cefnogi datblygiad a gweithrediad dangosfwrdd hawdd ei ddeall sy'n darparu gwybodaeth syml am iechyd a diwylliant ehangach yr ysgol.	Ie	Llywodraeth Cymru	Alison Halliday	Nid oes amserlen wedi'i darparu gan y Llywodraeth.				Byddwn angen adnoddau i greu dangosfwrdd a fyddai'n hwyluso casglu data o'r fath.	Mae'r Cyngor wedi gosod disgwyliad clir bod pob corff llywodrae-thu yn dilyn agenda sefydlog fel gofyniad sylfaenol. Mae hyn yn sicrhau bod materion allweddol, gan gynnwys diogelu, iechyd a lles, yn cael eu hystyried yn gyson ac yn rheolaidd, gan ddarparu lefel isafswm o sicrwydd a goruchwyliaeth ar draws pob ysgol. Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei gyflwyno yn flynyddol fel mater o drefn o hyn ymlaen. Mae'r Cyngor wedi cychwyn peilota dangosfwrdd Governor Hub gyda 10 ysgol (Medi 2026 ymlaen). Mae Governor Hub yn ddangosfwrdd hawdd ei ddeall er mwyn cadw holl ddogfennaeth a hyfforddiant Cyrff Llywodraethol mewn un man canolog hwylus.	
48		**Thema 4 - Llywodraethu Ysgolion**	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion Iedled Cymru, sy'n:** Golyn i'r Llywodraethwyr gadw cofnodion cywir am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â materion diogelu ac yn adrodd amdanynt i'r Awdurdod Lleol, yn enwedig pan nad yw'r penderfyniad a wnaed yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Lleol		Uywodraeth Cymru	Alison Halliday						Credir y dylai'r Llywodraeth ystyried cryfhau'r cymal hwn er mwyn sicrhau mai'r Awdurdod Lleol sydd â'r penderfyniad terfynol mewn achosion sy'n ymwneud ag atal neu weithredu mewn materion diogelu. Ar hyn o bryd, mae'r penderfyniad i atal wedi'i glustnodi i gaderydd y llywodraethwyr, sy'n codi rhai pryderon yn nhermau eglurder a chyfrifoldeb. Mae gwaith wedi'i wneud i wella'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i glercod, gan gydnabod eu rôl allweddol wrth sicrhau bod penderfyniadau a thrafodaethau'n cael eu cofnodi'n gywir ac yn gynhwysfawr. Mae'r cyngor wedi penodi swyddog canolog i fod yn gweithredu fel clerc mewn nifer o ysgolion pan fo angen y gefnogaeth honno ar ysgolion penodol. Mae rhaglen o hyfforddiant bwrpasol wedi ei gyflwyno i glercod er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl a chyfrifoldebau. Bydd Fforwm Clercod yn cael ei sefydlu yn gynnar yn Medi er mwyn rhannu arferion da a darparu cymorth barhaus i bob clerc.	Bydd rhaid aros i weld argymhellion yr Adolygiad Llywodreathiant LL.C cyn gallu ymateb a symud ymlaen.
		Thema 4 - Llywodraethu Ysgolion	Eglurder ynghylch trefniadau ymchwilio ac atal ar gyfer staff mewn ysgolion - rôl Caderydd y Llywodraethwyr yn y broses		Cyngor Gwynedd	Alison Halliday	Parhaus		Yn parhau		Na	Mae polisïau eisoes yn eu lle, wedi'u datblygu'n rhanbarthol, sy'n sicrhau bod y broses o atal staff ar bob lefel yn glir. Bydd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr bŵer dirprwyedig i atal Pennaeth. Bydd cefnogaeth ar gael gan AD a'r swyddog addysg i wneud hynny. Mae asesiad risg y mae angen ei gwblhau cyn i aelod o staff gael ei atal.	Codi ymwybyddiaeth ymhlith Cadeiryddion Llywodraethwyr am y polisi a'r cyfrifoldeb.

Thema 5 - Arferion Cyfyngol

Rhif	Cyf Tasg	Thema	Argymhelliad / Amcan	Gweithred	Aall CG weithredu:	Perthnasol i:	Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd	Amserlen	RAG	Tasg / Yn Parhau	Mesur	Adnoddau	Beth sydd eisoes wedi newid?	Beth sydd dal angen ei wneud?
53		**Thema 5 - Arferion Cyfyngol**	Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi atodiad i ganllaw y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2022 sy'n ymwneud ag oedolion yn ffilmio digwyddiadau ac yn rhoi arweiniad am gyfnod cadw priodol fideos o'r fath		Ia	Llywodraeth Cymru	Lion Williams	Hyd-26		Parhaus	OES		Fe wnaeth y Cyflawnwr weithredu'n groes i Bolisi'r Ysgol drwy ffilmio achosion - nid yw hyn yn arfer safonol. Yn ystod ymweliadau Sicrwydd Ansawdd rydym bob amser yn edrych ar y polisi arferion cyfyngol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarparwyd. Darperir hyfforddiant am ddim drwy'r tîm cynhwysiant. Mae trafodaeth fewnol ar ddefnydd o rym rhesymol, yn enwedig gan fod dau fath o hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd sy'n dysgu technegau gwahanol. Mae gan yr Adran Addysg arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y maes CPD ac felly byddai cysoni'r dulliau hyfforddi yn fan cychwyn da i sicrhau ymagwedd glir, gyson a diogel ar draws y gwasanaethau. **Canfyddiadau yr arfarniad allanol yn nodi:** Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod gan yr Awdurdod sail bolisi gadarn, wedi'i seilio ar egwyddorion hawliau dynol, atal, ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Mae'r polisi model presennol yn cyd-fynd yn briodol â'r Fframwaith Lleihau Ymyrraeth Gyfyngol (Cymru, 2022), ac yn adlewyrchu'n effeithiol y dyletswyddau statudol a nodir mewn deddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, er bod y sail polisi yn gryf, mae'r adolygiad yn dod i gasgliad cyson, sef: bod diffyg datblygiad system weithredol, monitro a gwerthuso yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol. Mae hyn yn dynodi'r angen i symud y ffocws strategol o ddatblygu polisi pellach i gryfhau'r system weithredu ac atebolrwydd sy'n sail i'w weithrediad. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, mae'r Awdurdod wedi gweithredu'r argymhellion allweddol, gan sefydlu trefniadau llywodraethiant clir, system ddata ganolog a fframwaith hyfforddi tair lefel.Bydd Grŵp Trosolwg Arferion Cyfyngol (fydd yn cynnwys aelodau o Tîm Lles a Diogelu Addysg, ADY, a lechyd a Diogelwch) yn cyfarfod yn fisol o Hydref ymlaen.	LIC yn ychwanegu atodiad i'r fframwaith sy'n egluro'r sefyllfa o ran staff yn gwneud recordiad o ddigwyddiadau yn amhriodol ar eu ffonau symudol personol, neu'n cadw'r recordiadau hyn. Nod y Llywodraeth i gwblhau erbyn haf 2026.

Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng

Rhif	Cyf Tasg	Thema	Argymhelliad / Amcan	Gweithred	A all CG weithredu:	Perthnasol i:	Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd	Amserlen	RAG	Tasg / Yn Parhau	Mesur	Adnoddau	Beth sydd eisoes wedi newid?	Beth sydd dal angen ei wneud?
54		**Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng**	Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol cynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd. **a. Bod y cynllun yn cynnwys trefniadau ar gyfer gofalu am y dioddefwr, diogelu tystiolaeth a rheoli'r troseddwr honedig**	Grŵp Tasg mewnol wedi'i sefydlu i adolygu cynlluniau cyfredol sydd yn eu lle ar lefel strategol a gweithredol i ymateb i ddigwyddiadau difrifol. Bydd y gwaith yn tynnu ar ymarfer da rhanbarthol a chenedlaethol	Ie	Llywodraeth Cymru / Holl Awdurdodau Lleol	Catrin Love	Medi-26		Tasg			Grŵp tasg mewnol a sefydlwyd i adolygu cynlluniau cyfredol sydd ar waith ar lefel strategol a gweithredol i ymateb i ddigwyddiadau critigol. Bydd y gwaith yn tynnu ar arfer da yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Grwp tasg yn cynnwys cynrhychiolaeth o'r Adran Blant, Adran Addysg, Gwasaneth Iechyd Diogelwch a Llesiant a hefyd y Gwasaneth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol sydd wedi arwain ar gyd-gordio y drafft. Cyflwyniad cychwynnol ar y Cynllun i ysgolion yn ystod Medi / Hydref trwy gyfarfodydd busnes Penaethiaid. Cyfarfod cynradd wedi ei gynnal ar y 30/09/2026 Cytundeb hefo'r Cynradd i gynnal cyfres o weithdai ar ôl hanner tymor sydd wrthi yn cael eu trefnu. Cyfarfod Penaethiaid Uwchradd i'w gynnal 07/10/26.	Gweithredu rhaglen hyfforddi cyflym a chadarn fel bod pob rhanddeiliad allweddol yn ymwybodol o'r cynllun ac yn derbyn hyfforddiant yn ôl y galw ar sut i'w weithredu ar eu safleoedd.
56		**Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng**	Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol cynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd. **c. Bod cynllun strategol mewn grym i gael cefnogaeth hawdd cael ati ar y safle ar gyfer plant ac oedolion mewn sefydliadau lle bu digwyddiad trawmatig arwyddocaol**	Ymchwil i gamau cymorth cyflym ar y safle ar gyfer plant ac oedolion ac amlinellu manylion cyswllt yn glir yn y cynllun.	Ie	Llywodraeth Cymru / Holl Awdurdodau Lleol	Catrin Love	Ionawr 2026		Tasg	Na	Na	Mae gwybodaeth ar sefydliadau all gynnig cefnogaeth i blant ac oedolion wedi eu casglu ac wedi eu cynnwys yn y Cynllun drafft.	
57		**Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng**	Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol cynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd. **d. Mewn digwyddiad difrifol fel hwn, ystyried symud gweithiwr cymdeithasol i weithio ar secondiad gyda thîm archwilio'r Heddlu er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a'r wybodaeth yn cael eu hystyried o safbwynt diogelu yn ogystal ag o safbwynt troseddol**	Trafod y posibiliadau a'r mecanwaith i roi hyn ar waith.	Ie	Llywodraeth Cymru / Holl Awdurdodau Lleol	Catrin Love	Ebrill 2026		Tasg	Na	Petai digwyddiad argyfwng, yna byddai angen ystyried secondio adnodd ar y pryd	Trafodaeth wedi bod gyda Swyddogon yr Heddlu sydd yn ffafrio datrysiad mwy hyblyg. Mae trafodaethau cadarnhaol hefyd wedi'u cynnal gyda'r Heddlu ynghylch trefniadau cydweithio mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys y posibilrwydd o secondiadau neu drefniadau staffio priodol pe bai angen.	Trafod efo Prif Arolygydd Ditecti i ystyried os oes angen arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth i ffurfioli y drefn ymhellach.
55		**Thema 6 - Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng**	Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol cynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd. **b. Bod y cynllun yn cynnwys protocol swyddogol ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill a allai gael eu heffeithio**	Caiff y cynllun ei ddrafftio ar y cyd â phartneriaid gwytnwch ar draws y Gogledd a chynnwys protocol ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth	Ie	Llywodraeth Cymru / Holl Awdurdodau Lleol	Catrin Love	Gorff-26		Tasg	Na	Na	Mae na ddau brotocol WASPI eisoes mewn lle. Un ar gyfer rhannu gwybodaeth diogelu, ac un ar gyfer rhannu gwybodaeth pobl bregus mewn argyfwng. Mae yna hefyd ganllawiau ICO clir iawn ar rannu gwybodaeth mewn argyfwng. Mater felly o gynnwys cyfarwyddyd clir a di-amwys yn y Cynllun Crisis i rannu gwybodaeth perthnasol heb oedi ac mae hyn wedi ei wneud yn y drafft.	

Rhif	Math o risg	Cyfrifoldeb Pwy	Risg	Canlyniadau Risg	Mesurau Lliniaru	Statws Risg								
1	Llywodraethol	Pawb	**Methiant y Bwrdd i sicrhau dilyniant ar argymhellion o'r adroddiadau, e.e. AYP, Bargyfreithiwr, Arolygiad PCA, ICO.**	Dim sicrwydd na fydd neb yn dioddef yn yr un modd eto - gall hyn gael effaith yn y pendraw ar yr Awdurdod ac ar Blant a Phobl Ifanc y Sir	1. Rhaglen waith wedi ei greu a chyfarfodydd rheolaidd yn digwydd er mwyn sicrhau dilyniant ar yr argymellion hyn 2. Aelodau annibynol yn cynnwys rheoleiddwyr yn y maes diogelu wedi eu henwebu fel arsylwyr ar y Bwrdd Rhaglen. Hyn er mwyn sicrhau mewnbwn gwrthrychol a her. 3. Aelodau Cabinet yn aelodau o'r Bwrdd yn cyfeiriad gwleidyddol strategol a chraffu a chefnogi gwaith swyddogion. 4. 'Assurance Board' wedi ei sefydlu gan y Llywodraeth er mwyn rhoi sicrwydd lefel uchel, strategol bod Gwynedd yn gweithredu. 5. Cynllun Ymateb diwygiedig wedi ei graffu gan Bwyllgorau Craffu, Llywodraethu ac Archwilio a'i cyflwyno i gyfarfod y Cyngor. 6. Mae bwriad ail-ymweld a'r argymhellion gwreiddiol yr adroddiadau er mwyn sicrhau ein bod wedi gweithredu. Mae hyn eisoes wedi'i wneud ar gyfer argymhellion CTED ac wedi'i gynnwys yn y pecyn Pwyllgorau Craffu (Hydref 2026)							2	4	8
2	Llywodraethol	DG	**Diffyg atebolrwydd clir o amgylch argymhellion yr AYP ac adroddiadau eraill, e.e. os yn weithred i'r Llywodraeth neu i Wynedd, ar pa bwynt sy'n briodol i Wynedd weithredu?**	Materion yn disgyn rhwng dwy stôl ac ddim yn cael eu dilyn fyny. Gall hyn gael effaith yn y pendraw ar Blant a Phobl Ifanc y Sir a'r gymuned ehangach.	1. Rhaglen waith wedi ei greu sydd yn adnabod arweinydd thema a swyddog cyfrifol am pob argymhelliad sydd yn atebol i Wynedd. 2. Aelodau o'r Bwrdd hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac felly yn ceisio sicrhau llinellau atebolrwydd clir rhwng sefydiadau 3. Cynnig JP i wneud adolygiad pellach ymhen amser. 4. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn eistedd fel arsylwyr annibynnol ar y Bwrdd. 5. Mae'r bwrdd sicrwydd Gweinidogol hefyd yn cyfarfod bob deufis ac yn sicrhau diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau Llywodraeth Cymru.							2	4	8

3	Llywodraethol	DG	**Oedi mewn gweithredu oherwydd yr angen i aros am newidiadau cenedlaethol.** **Mae risg pellach o oedi yn sgîl yr etholiadau seneddol mis Mai 2026.**	a) Risg o weithredu yn rhy araf er mwyn ymateb i newid yn medru arwain at achosion tebyg o'u natur i godi eto b) Risg o symud ymlaen yn gynamserol yn arwain at gamgymeriadau neu yn creu mwy o waith addasu pellach o fewn cyfnod byr. Gall hyn gael effaith ar yr Awdurdod ac hefyd ar Blant a Phobl Ifanc y Sir.	1. Rhaglen waith wedi adnabod amserlenni tebygol yn erbyn pob gweithred a sgôr risg yn seiliedig ar y gallu i gyflawni o fewn y terfyn amser a nodir - Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. 2. Aelodau o'r Bwrdd hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac felly yn ceisio sicrhau gweithredu amserol o safbwynt yr holl sefydliadau. 3. Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Grwp Sicrwydd Gweinidogol gyda dibyniaethau yn cael eu trafod a'u ystyried 4. Cais wedi ei wneud am ddiweddariad yng nghyfarfod y Bwrdd (Ebrill) ar yr adolygiadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. 5. Mae llythyr wedi'i anfon at y Gweinidog Addysg newydd yn mynegi'r awydd i gyfarfod â hwy cyn gynted â phosibl ac i barhau â threfniadau'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol. 6. Yn dilyn etholiad mis Mai 2026, mae'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol yn parhau o gyfarfod yn rheolaidd, gan ddarparu fforwm ar gyfer deialog barhaus, cydweithio a sicrwydd rhwng partneriaid.							2	4	8
4	Llywodraethol	SH/DG	**Trefniadau monitro annigonol yn dilyn i'r Bwrdd ddirwy i ben**	Methiant y Bwrdd i sicrhau atebolrwydd priodol i weithredoedd parhaus yn golygu dim sicrwydd na fydd neb yn dioddef yn yr un modd eto. Gall hyn gael effaith yn y pendraw nid yn unig i'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru ond ar Blant a Phobl Ifanc y Sir.	1. Cyfeiriad yn y cylch gorchwyl at drefniadau dod a'r Bwrdd i ben. 2. Rhaglen waith yn amlygu y tasgau sydd yn rhai pendant o ran amser o gymharu a tasgau fydd yn barhaus a threfniadau monitro rhai parhaus wedi'r Bwrdd ddod i ben. 3. Cyrff arolygu yn sicrhau gwiriadau o drefniadau 4. Grwp Sicrwydd Gweinidogol wedi ei sefydlu gan y Llywodraeth er mwyn rhoi sicrwydd lefel uchel, strategol bod Gwynedd yn gweithredu. 5. Gwaith yn mynd rhagddo ar greu cynllun ymadael / cynllun pontio. Anelir i gyflwyno'r cynllun i'r Bwrdd fis Orffennaf. 6. Mae drafft cychwynnol o matrics ymadael wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd, gyda thrafodaeth bellach i'w chynnal yn y flwyddyn newydd yn dilyn cyflwyno mesurau effaith hirdymor newydd (cyfarfod BRhCY 19 Hydref 2026).							2	3	6

6	Cyllid ac Adnoddau	DG	**Diffyg adnoddau i gyflawni amcanion y Bwrdd Rhaglen**	Diffyg adnodd, bod hynny yn amser staff neu adnodd ariannol yn arwain at fethiant i ddiogelu unigolion yn ein cymunedau. Swyddogion yn methu rhoi sylw i flaenoriaeth eraill pwysig o fewn y Cyngor oherwydd hyn. Byddai hyn yn cael effaith ar allu staff y Cyngor i gyflawni fyddai o ganlyniad yn effeithio ar Blant a Phobl Ifanc y Sir.	1. Blaenoriaethu adnoddau mewnol - amser staff 2. Ychwanegu at gyllideb refeniw y Cyngor er mwyn cwrdd ag argymhellion yr adroddiad CTED 3. Arian ychwanegol wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru gyda trafodaethau parhaus trwy'r Grwp Sicrwydd Gweinidogol am hyn. 4. Er bod adnoddau ychwanegol wedi eu adnabod mae gofynion yn parhau i gynyddu sy'n arwain at yr angen am adnoddau ychwanegol ac o ganlyniad nid yw'r lefel risg wedi ei ddiwygio eto. 5. Mae nifer o swyddi a grëwyd drwy gyllid corfforaethol bellach wedi'u llenwi, gan gynnwys Rheolwr Sicrwydd / DOS, Clerc Proffesiynol a Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid ychwanegol er mwyn cryfhau capasiti'r Adran Plant i ymateb i faterion. Er hynny, mae capasiti yn parhau'n her, gyda phwysau sylweddol ar unigolion.							4	3	12
9	Enw Da	IJ/DG	**Lefel morâl staff a balchder o fod yn gweithio i'r Cyngor / Ysgol yn gostwng oherwydd yr amgylchiadau**	Staff yn gadael y Cyngor/Ysgol Heriau recriwtio i swyddi oherwydd bod enw da fel cyflogwr wedi ei effeithio fydd yn effeithio ar yr Awdurdod	1. Cynnal arolygon rheolaidd er mwyn canfod barn - e.e. Arolwg Llais Staff 2. Sicrhau cyfarfodydd gwerthuso rheolaidd gyda staff a cyfleon i ddathlu llwyddiannau o fewn y sefydliad.							3	4	12
11	Enw Da	DG/GApRh/MD	**Diffyg hyder ac ymddiriedaeth yn y Cyngor / Ysgol Friars - e.e. dioddefwyr, teuluoedd, disgyblion, staff, aelodau a'r gymuned ehangach.**	Effaith posib ar berthnasoedd pobl gyda'r Cyngor / Ysgol. Moral staff yn gostwng a risg o staff yn gadael y Cyngor/Ysgol. Mae risg y gall materion sy'n ymwneud â Brynffynnon gael eu cysylltu â gwaith y Bwrdd Ymateb yn ehangach, gan effeithio ar hyder y cyhoedd, staff a phartneriaid yn nhrefniadau'r Cyngor.	1. Cynnal sesiynau briffio wyneb i wyneb gyda'r wasg o flaen llaw 2. Gonestrwydd a trylowder yn y datganiadau sy'n cael eu rhannu gyda'r wasg er mwyn cryfhau ymddiriedaeth 3. Sicrhau bod newyddion da yn cael ei rannu am waith sy'n digwydd o fewn y Cyngor 4. Cynnal arolygon rheolaidd er mwyn canfod barn - e.e. Arolwg Llais Staff, Cyngor Ysgol, Arolygon i Rieni 5. Cyhoeddi papurau'r Bwrdd Ymateb ar ein gwefan er trylowder. 6. Mae'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol yn ystyried ehangu ei gylch gorchwyl i gynnwys goruchwyliaeth o'r materion sy'n ymwneud â Brynffynnon, gan ddarparu her a sicrwydd annibynnol pellach. 7. Bwriedir comisiynu cyfres o grwpiau ffocws rhwng rŵan a'r Nadolig, er mwyn mesur effaith y gwaith hyd yma a lefel hyder pobl (er enghraifft rhieni) yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor							3	4	16


12	Llesiant	SWC	**Cefnogaeth annigonol i'r dioddefwyr a'u teuluoedd**	Yn gallu cael effaith pellgyrhaeddol ar fywydau gwahanol unigolion	1. Cefnogaeth wedi ei deilwra i sefyllfa pob dioddefwr trwy eu Gweithiwr Cefnogol (wedi ei gydgordio trwy'r grwp cefnogi dioddefwyr) 2. Sicrhau bod y dioddefwyr yn deall bod y cynnig o gefnogaeth yn parhau ar gael iddynt yn y dyfodol petai nhw ei angen. 3. Mae mesur bellach wedi ei ddatblygu i asesu effaith / addasrywdd y gefnogaeth a gynigir yn chwarterol.							2	4	8
13	Llesiant	IJ/GApRh/MD	**Cefnogaeth annigonol i'r gymuned ehangach ac i staff y Cyngor / Ysgol Friars**	Yn gallu cael effaith pellgyrhaeddol ar fywydau gwahanol unigolion	1. Sefydlu canolfan lesiant ar safle Ysgol Friars 2. Cefnogaeth tîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor 3. Cefnogaeth cwnsela (Medra)							2	3	6

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Medi 2026


Llais y Plentyn



Mae **gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn** sy'n destun Cyfeiriad Diogelu (Adran 5)



Mae pob ysgol yn dangos **gwybodaeth am berson annibynnol** y gall disgyblion siarad efo os oes ganddynt bryderon diogelu.



Mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.



Mae'r Cyngor yn cyd-weithio â phartneriaid er mwyn cynnig **cefnogaeth barhaus i'r dioddefwyr.**



Mae'r Cyngor wedi datblygu **Strategaeth Llais y Plentyn.**



Mae rhaglen waith bellach mewn lle i **wreiddio hawliau plant** ar draws y Cyngor.



Penodwyd **swydd arbennig i helpu datblygu Fforwm Ieuenctid Gwynedd.**



Mae'r Cyngor yn **cyflogi gweithiwr ychwanegol** i wrando ar llais fwy o blant a phobl ifanc, fel plant mewn gofal a phlant anabl.

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Medi 2026

Trefniadau Diogelu Adran 5 (Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn Swydd o Ymddiriedaeth)



Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.



Mae **cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).



Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.



Mae'r **Cyngor, yr Heddlu a gwasanaethau eraill bellach yn gweithio'n well gyda'i gilydd** i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.



Mae **"Magic Notes" yn cael ei beilota** er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Adran 5).



Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.



Rydym wedi **penodi Rheolwr Sicrwydd Ansawdd** i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn yn yr Adran Plant.



Mae rheolwyr o'r **Adrannau Plant ac Addysg yn cyfarfod yn rheolaidd** i gryfhau cydweithio.


Trefniadau Corfforaethol, Polis ac Hyfforddiant



Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.



Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.



Mae **fideo wedi ei chreu ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu adolygiad o **Bolisi Diogelu Corfforaethol**



Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r NSPCC i greu **hyfforddiant penodol ar adnabod arwyddion o feithrin perthynas amhriodol** (grooming).



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Canllaw Canu'r Gloch newydd** i Cynghorwyr Gwynedd.



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.



Mae'r Cyngor wedi **cyflwyno hyfforddiant ar y Polisi "Canu'r Gloch"** ar gyfer holl staff a Chynghorwyr Gwynedd.

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Medi 2026

Diogelu a Lles Ysgolion



Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.



Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â phob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.



Cynyddwyd capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg ym mis Mawrth 2026- mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.



Mae'r **Ymchwiliad Craffu i ddiogelu mewn ysgolion** wedi'i gwblhau. Byddwn yn edrych ar roi ei argymhellion ar waith.

Sefydlogi'r Ysgol



Mae **Pennaeth a Tîm Rheoli newydd** yn Ysgol Friars.


Cynllun Argyfwng



Mae cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng.** Gall hyn fod yn weithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).



Mae **Cynllun Argyfwng Ysgolion** newydd bellach ar waith i helpu ysgolion i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng



Mae'r Cyngor yn **cyflwyno gweithdy hyfforddiant ar y Cynllun Argyfwng i bob Ysgol.**

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Medi 2026


Llywodraethu Ysgolion



Penodwyd **Swyddog newydd i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion.**




Mae Cadeiryddion a Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn derbyn **hyfforddiant ychwanegol** i'w cefnogi yn eu rôl.




Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.



Mae **Clerc Proffesiynol** bellach yn ei le i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion




Mae'r Cyngor yn peilota GovernorHub i gefnogi Llywodraethwyr drwy roi gwybodaeth glir iddynt am **iechyd a lles yr ysgol**



Mae **Fforymau Clercod a Chadeiryddion** wedi'u sefydlu i rannu arfer da a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael.



Ers mis Medi 2026, mae **rhaglen hyfforddiant gryfach** ar waith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion.



Mae pob Corff Llywodraethu bellach yn cael **rhestr glir o'r pethau pwysig** y dylai nhw eu trafod yn rheolaidd.

Arferion Cyfyngol



Mae'r **Polisi Arferion Cyfyngol** arweiniol wedi ei fabwysiadu gan pob Ysgol yng Ngwynedd



Mae **adolygiad annibynnol o arferion cyfyngol** wedi'i gynnal, gan arwain at gyfres o argymhellion i'w gweithredu.



Mae grŵp o swyddogion ar draws y Cyngor yn cyfarfod i **adolygu a monitro achosion lle mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio**.

Beth sydd dal angen ei wneud yn dilyn adroddiad *Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?*


Erbyn Ionawr 2027

Trefniadau Diogelu



Bydd y **ffurflen gyfeirio yn ddigidol ac yn haws i'w llenwi**, yn amodol ar ddatblygiadau cenedlaethol.

Hyfforddiant a Gorychwyliaeth



Byddwn wedi **mapio'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu i bob swydd** fel bod y rhai sydd ei angen yn cael hyfforddiant uwch.



Bydd Personau Dynodedig Diogelu ysgolion yn cael **mynediad at oruchwyliaeth allanol ac annibynnol** pan fo angen, gan roi cefnogaeth broffesiynol ychwanegol iddynt yn eu rôl.